The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

## Canllawiau Gweithdrefnol







FERSIWN 2.1
Mehefin 2019

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad** **4**

Trosolwg o'r broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol 4
Cynnwys y gymuned 4
Cysylltu â ni 4
Camau Cais DNS 5
***Beth yw Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS)?*** 6
***Gofynion i rai prosiectau DNS fod yn Barod i Ddal Carbon*** 6

**2. Y Cam Cyn-ymgeisio** **7**

Ymgysylltu'n Gynnar 7
Hysbysu 7
Cyhoeddusrwydd ac Ymgynghori Cyn-ymgeisio 7
Cyngor Cyn-ymgeisio 9
Datganiadau Tir Cyffredin 10

**3. Cyflwyno** **12**

Sut dylai dogfennau cais gael eu paratoi? 13
Sut dylai dogfennau cais gael eu trefnu? 14
Sut dylai'r cais gael ei gyflwyno? 14
Beth sy'n digwydd ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno? 15

**4. Ymgynghori a Chyhoeddusrwydd** **16**

Sut bydd y cyfnod ymgynghori a chyhoeddusrwydd yn cael ei gynnal? 16
Cynrychiolaethau 17
Adroddiadau ar yr Effaith Leol 17
Amrywio'r Cais DNS 17

**5. Yr Archwiliad** **18**

Pa mor hir y bydd yr archwiliad yn ei gymryd? 18
Beth yw'r weithdrefn ar gyfer yr archwiliad? 18
A fydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle? 19
A all yr archwiliad gael ei ohirio? 19
Bod yn agored ac yn dryloyw yn ystod yr archwiliad 20

**6. Y Penderfyniad** **21**

A ellir herio penderfyniad? 21
Pwy sy'n sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd? 21
Adborth a chwynion 22

**7. Ffïoedd a Chyllid** **23**

Cyllid 24

**Atodiad 1: Rôl cyrff cyhoeddus** **26**

***Pa gyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig?*** **26**

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 26
Llywodraeth Cymru 26
ACLlau 26

***Pryd mae cyrff cyhoeddus yn ymwneud â'r broses DNS?*** **26**

Y Cam Cyn-ymgeisio 26
Asesu Effeithiau Amgylcheddol 27
Cydsyniadau cysylltiedig 27

**Atodiad 2: Cydsyniadau Eilaidd a Chysylltiedig 28**

Cyngor Cyn-ymgeisio 28
Cydsyniadau nad ydynt yn eilaidd 29
Cydsyniadau Cysylltiedig 29
Gwaith sy'n ymwneud â llinellau trydan uwchben 29

**Atodiad 3: Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA) 30**

Ceisiadau DNS ac EIA 30
Y Cam Ymgynghori 33
Y Cam Cyflwyno 33

**Atodiad 4: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) 35**

Y Rheoliadau HRA – pwrpas ac effaith 35
Safleoedd Ewropeaidd 35
Cydlynu HRA â'r broses DNS 36
Cam 1 HRA: Sgrinio 36
Camau 3 a 4 HRA: Asesu Dewisiadau Amgen ac Ystyried IROPI 40
Cyflwyno ac archwilio 40
Adroddiad yr Arolygydd 40

**Atodiad 5: Adroddiadau ar yr Effaith Leol 41**

Trosolwg o LIRs a'r Broses DNS 41
Beth yw'r broses ar gyfer cynhyrchu LIR? 41
Yr Ymagwedd Gyffredinol at y LIR 41
Graddfeydd Amser ar gyfer cynhyrchu'r LIR 41
LIR a Ffïoedd 42
Cynnwys y LIR 42
Y LIR a Dogfennau eraill y Cais DNS 44

**Atodiad 6: Rhwymedigaethau Cynllunio 45**

**Atodiad 7: Yr Adroddiad Ymgynghori 46**

Ymgyngoreion statudol 46
Cyhoeddusrwydd statudol 47
Nifer yr ymatebion, yn ôl math 47
Y prif faterion 48
Ymatebion gan ymgyngoreion statudol a chamau gweithredu canlyniadol 49

**Atodiad 8: Adborth a Chwynion 50**

Sut rydym yn ymdrin â chwynion 50
Sut rydym yn ymchwilio i gwynion 50
Pwy sy'n gyfrifol am fonitro datblygiad? 51
Rôl yr Ombwdsmon 51

# 1. Cyflwyniad

### *Trosolwg o'r broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol*

1.1. Darperir y sail statudol ar gyfer y broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DNS") gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau dilynol.

1.2. Diben y broses DNS yw sicrhau bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud ynglŷn â'r ceisiadau hynny sydd o'r arwyddocâd mwyaf i Gymru, oherwydd eu buddion a'u heffeithiau posibl.

1.3. Cyflwynir ceisiadau i Arolygiaeth Gynllunio Cymru ("yr Arolygiaeth") i'w hystyried gan Arolygydd a benodir. Yna, bydd yr Arolygydd a benodir yn ystyried tystiolaeth gan yr ymgeisydd, yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), ymgyngoreion statudol eraill a phartïon â buddiant.

1.4. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru, yn amlinellu ei gasgliadau ac yn gwneud argymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i'r cais ai peidio.

1.5. Mae'r diagram ar y dudalen ganlynol yn rhoi trosolwg sylfaenol o'r broses ymgeisio DNS.

### *Cynnwys y gymuned*

1.6. Cydnabyddwn efallai na fydd gan bobl leol reswm i ymwneud â cheisiadau cynllunio yn aml iawn. Oherwydd hynny, rydym hefyd wedi cynhyrchu canllaw hwylus i'r broses DNS sy'n canolbwyntio ar sut a phryd y gall pobl gymryd rhan.

### *Cysylltu â ni*

1.7. I drafod cais penodol neu ofyn am wybodaeth am y broses DNS, gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Arolygiaeth Gynllunio Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Llinell Ymholiadau Cyffredinol: 0303 444 5940
E-bost: dns.wales@planninginspectorate.gov.uk

***Camau Cais DNS***

**Ymgysylltu ac ymgynghori cyn-ymgeisio**

**Cam 1: Cyn-ymgeisio**

- Cyfarfodydd Dechreuol a Chyngor Cyn-ymgeisio
- Mae'r datblygwr yn rhoi cyhoeddusrwydd i gynigion drafft, ac yn ymgysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol, cymunedau yr effeithir arnynt ac ymgymerwyr statudol i amlygu materion a chyfnewid safbwyntiau.

*DS: Y datblygwr sydd i benderfynu sut i gynnal 'ymgysylltiad' cynnar.*

↓

- Mae'r datblygwr yn cyflwyno hysbysiad o fwriad i gyflwyno DNS
- Mae'r Arolygiaeth yn derbyn yr hysbysiad (10 niwrnod gwaith)

↓

- Mae'r datblygwr yn cynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio statudol

↓

**Cyflwyno'r cais ac ymgynghori**

**Cam 2: Cyflwyno'r cais**

- Mae'r datblygwr yn cyflwyno cais gydag Adroddiad Ymgynghori (cyfnod dilysu 42 ddiwrnod ar gyfer achosion Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA) a 28 niwrnod ar gyfer pob un arall)
- Os yw'r cais yn ddilys, bydd yr Arolygiaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd iddo ac yn ymgynghori arno
- Mae'r ACLl yn paratoi Adroddiad ar yr Effaith Leol

↓

- *Rhoddir 10 niwrnod gwaith i'r datblygwr ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben i benderfynu p'un ai diwygio'r cais ai peidio*

↓

**Archwiliad a phenderfyniad**

**Cam 3: Yr Archwiliad**

- Penodir Arolygydd i 'archwilio'r' cais a bydd yn penderfynu ar y weithdrefn
- Bydd yr Archwiliad ar ffurf cynrychiolaethau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad, neu gyfuniad o'r tri

↓

- *Mae'n rhaid i'r Arolygydd a benodir ystyried yr holl gynrychiolaethau ac unrhyw faterion a godwyd, a bydd yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru yn argymell p'un a ddylid rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio*

↓

**Cam 4: Penderfyniad**

- Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais ac yn cyhoeddi'r penderfyniad hwnnw

### *Beth yw Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS)?*

1.8 Er mwyn i brosiect fod yn DNS, mae trothwyon a meini prawf penodol yn berthnasol.

1.9 Mae union fanylion y meini prawf sy'n ymwneud â phrosiectau amrywiol ar gael yn Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd).

1.10 Ar 1 Ebrill 2019, estynnwyd y trothwyon DNS sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu; o ganlyniad, mae pob prosiect cynhyrchu ynni rhwng 10MW a 350MW yn dod o fewn y system DNS.

1.11 Felly hefyd llinellau trydan uwchben hyd at 132kV sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig.

1.12 Nid yw prosiectau storio ynni yn dod o fewn y system DNS mwyach. I bob pwrpas, gall ACLlau benderfynu ar bob prosiect storio ynni hyd at 350MW. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys cynlluniau storio hydrodrydanol pwmpiedig rhwng 10MW a 350MW sy'n dod o fewn y system DNS o hyd.

### *Gofynion i rai prosiectau DNS fod yn Barod i Ddal Carbon*

1.13 Mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer ffatrïoedd hylosgi sydd â chapasiti o 300MW neu fwy gael eu hategu gan asesiadau sy'n ymwneud â dal, cludo a storio $CO_2$. Mae hyn yn unol â Chyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar Storio Carbon Deuocsid yn Ddaearegol.

1.14 Yn dibynnu ar ganlyniadau'r asesiadau hynny, fe allai fod yn ofynnol i'r prosiect gynnwys offer dal carbon, i wneud y ffatri arfaethedig "yn barod i ddal carbon" (CCR).

1.15 Mae Rheoliadau Parodrwydd i Ddal Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan) 2013 (fel y'u diwygiwyd) yn darparu'r manylion angenrheidiol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) wedi cynhyrchu canllawiau'n flaenorol, sy'n amlinellu'r prosesau a'r gofynion angenrheidiol, ac maen nhw ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/43609/Carbon_capture_readiness_-_guidance.pdf

# 2.Y Cam Cyn-ymgeisio

### *Ymgysylltu'n Gynnar*

2.1. Anogir ymgeiswyr yn gryf i gynnal trafodaethau cyffredinol â'r Arolygiaeth ynglŷn â'u cais a'r broses DNS yn ystod camau cynnar dylunio prosiect. Mae'r cyfarfodydd cychwynnol hyn wedi profi i fod yn fuddiol i ymgeiswyr ac wedi gwella dealltwriaeth o'r broses DNS.

2.2. Cyn cyflwyno'r cais, mae ymgysylltu'n gynnar â chymunedau, ACLlau, ymgyngoreion statudol a phartïon eraill â diddordeb yn rhoi cyfle i oresgyn unrhyw broblemau posibl yn ymwneud â'r cynnig. Mae'r gallu i ddiwygio cynllun ar ôl cyflwyno cais DNS yn gyfyngedig iawn. O ganlyniad, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn ceisio datrys unrhyw broblemau cyn cyflwyno'r cais, ac mae'r Arolygiaeth yn argymell yn gryf y dylid ymgysylltu â'r cyrff hyn yn gynnar.

2.3. Ar gam cynnar, dylai ymgeiswyr ystyried p'un a oes angen trwyddedau neu gydsyniadau cysylltiedig gan gyrff eraill, fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Dylai ymgeiswyr geisio gyflwyno cais am gydsyniadau cysylltiedig ar yr un pryd â'u cais DNS er mwyn osgoi oedi yn ddiweddarach yn y broses. Ni fyddai hyn yn achosi oedi wrth brosesu ceisiadau DNS, ond gallai achosi oedi i'r cynllun os oes angen aros i gydsyniadau eraill gael eu cymeradwyo.

2.4. Dylai prosesau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) fod yn ailadroddol a chael eu hystyried yn gynnar yn natblygiad prosiect DNS hefyd.

### *Hysbysu*

2.5. Hysbysu yw cam ffurfiol cyntaf y broses DNS.

2.6. Hysbysiad ydyw o fwriad i gyflwyno cais DNS. Mae'n rhaid ei wneud cyn cyflwyno'r cais llawn a chyn i'r ymgeisydd gynnal y cyhoeddusrwydd a'r ymgynghoriad statudol.

2.7. Rhoddir 10 niwrnod gwaith i'r Arolygiaeth benderfynu a yw'r prosiect yn DNS ai peidio. Os derbynnir yr hysbysiad, bydd gan yr ymgeisydd ddeuddeg mis i gyflwyno cais DNS llawn.

2.8. Y ffi ar gyfer cyflwyno hysbysiad yw £580.

### *Cyhoeddusrwydd ac Ymgynghori Cyn-ymgeisio*

## Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

2.9. Ar ôl y cam hysbysu, cyn cyflwyno cais DNS llawn, mae'n rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig ac ymgynghori arno am gyfnod o chwe wythnos o leiaf.

2.10. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd wneud y canlynol, o leiaf[1]:

- Ymgynghori ag ymgyngoreion cymunedol penodol, ymgyngoreion arbenigol ac unrhyw unigolion perthnasol (gweler y tabl isod),
- Rhoi hysbysiad ysgrifenedig i berchenogion neu feddianwyr tir sy'n cyd-ffinio â'r safle,
- Arddangos hysbysiadau safle, sy'n gymwys ar gyfer y broses DNS, mewn un man o leiaf ar y safle neu'n agos iddo, a
- Rhoi hysbysiad mewn papur newydd lleol.

| **Categori** | **Unigolion/sefydliadau y mae'n ofynnol ymgynghori â nhw** |
|---|---|
| Ymgyngoreion Cymunedol | • Pob Cynghorydd sy'n cynrychioli pob ward etholiadol yn y Sir neu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol y mae'r safle wedi'i leoli ynddi/ynddo.<br>• Y Cyngor/Cynghorau Cymuned y mae'r safle wedi'i leoli ynddo/ynddynt. |
| Ymgyngoreion Arbenigol | Yn dibynnu ar y math o ddatblygiad a'i natur, mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori â'r cyrff canlynol:<br>• Gweinidogion Cymru<br>• CNC<br>• Yr Awdurdod Priffyrdd Lleol<br>• Gweithredwr y rhwydwaith rheilffyrdd<br>• Yr Awdurdod Glo<br>• Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch[2]<br>• Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear<br>• Yr awdurdod cymwys Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH), ac unrhyw unigolyn sy'n rheoli tir sy'n gysylltiedig â gosodiad peryglus<br>• Yr Ymddiriedolaeth Theatrau |

[1] Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd); Erthyglau 7, 8 a 9
[2] Mae manylion cyswllt DNS ar gyfer yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gael yma: http://www.hse.gov.uk/landuseplanning/contact.htm

| | |
|---|---|
| | • Cyngor Chwaraeon Cymru<br>• Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd |
| Unigolion Perthnasol | Os yw'r cais DNS yn cynnwys un neu fwy o gydsyniadau eilaidd, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ymgynghori â'r awdurdod a fyddai'n penderfynu ar y cais fel arfer. Gallai hyn gynnwys:<br>• Gweinidogion Cymru<br>• ACLl<br>• Yr Awdurdod Priffyrdd Lleol<br>• Yr Awdurdod Sylweddau Peryglus |

2.11. Ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori, mae'n rhaid i'r ymgeisydd baratoi Adroddiad Ymgynghori. Mae'n rhaid i hwn gael ei gyflwyno gyda'r cais a dylai ddarparu manylion am y broses ymgynghori, y cynrychiolaethau a gafwyd ac ymateb yr ymgeisydd iddynt.

### *Cyngor Cyn-ymgeisio*

2.12. Mae proses ffurfiol ar gael os hoffai ymgeiswyr gael cyngor cyn-ymgeisio gan yr Arolygiaeth, sy'n ymestyn i gyngor 'heb ragfarnu' ar rinweddau cynlluniau arfaethedig yn ogystal ag agweddau gweithdrefnol y broses DNS.

2.13. Mae proses ar wahân i gael cyngor cyn-ymgeisio gan yr ACLl perthnasol.

2.14. Codir tâl am y gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio, ac mae'r manylion ar gael yn adran Ffïoedd a Chyllid y canllawiau hyn.

**Pryd a sut mae cyngor cyn-ymgeisio ar gael?**

2.15. Mae cyngor cyn-ymgeisio ffurfiol ar gael ar unrhyw adeg hyd at gyflwyno cais DNS. Bydd angen i geisiadau am gyngor cyn-ymgeisio gael eu gwneud mewn fformat safonol ar y ffurflen sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2.16. Yn ogystal, mae'r Arolygiaeth yn cynnig cyfarfodydd Cychwynnol, sy'n rhoi cyfle i ymgeiswyr drafod y broses cyn-ymgeisio a chadarnhau unrhyw ofynion am gyngor ffurfiol.

2.17. Anogir ymgeiswyr i ystyried ymgysylltu ag ymgyngoreion statudol perthnasol ar yr adeg hon hefyd.

**Pa gyngor cyn-ymgeisio sydd ar gael?**

2.18. Pan fydd yr ymgeisydd yn gofyn amdanynt, darperir y canlynol o leiaf:

- Gwybodaeth a chymorth ynglŷn â ffurf a chynnwys y cais; ffurf a chynnwys unrhyw adroddiadau technegol a allai fod yn angenrheidiol; y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais a'i symud ymlaen; a

- Gwybodaeth neu gymorth arall a geisir gan yr ymgeisydd.

2.19. Pan ofynnir amdano'n benodol, gallai'r Arolygiaeth roi cyngor gweithdrefnol i ymgeiswyr hefyd.

2.20. Bydd yr holl gyngor cyn-ymgeisio yn cael ei roi ar sail y wybodaeth a ddarperir ar y pryd yn unig. Mewn rhai achosion, bydd y cyngor y gall yr Arolygiaeth ei gynnig yn cael ei gyfyngu gan yr adnoddau sydd ar gael.

**Pwy fydd yn rhoi'r cyngor cyn-ymgeisio?**

2.21. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cyngor cyn-ymgeisio yn cael ei roi gan Swyddogion Cynllunio o'r Arolygiaeth. Pan fydd angen gwybodaeth arbenigol neu dechnegol benodol, gallai Arolygydd gael ei neilltuo i roi cyngor ychwanegol.

2.22. Pan fydd Arolygydd wedi rhoi cyngor cyn-ymgeisio, bydd yr un Arolygydd yn archwilio'r cais. Fodd bynnag, rhoddir yr holl gyngor cyn-ymgeisio heb ragfarnu.

2.23. Ni fydd yr Arolygiaeth fel arfer yn ymgynghori â'r ACLl, yr awdurdod priffyrdd na chyrff statudol eraill wrth baratoi cyngor cyn-ymgeisio. Fel y nodwyd uchod, mae proses ar wahân i gael cyngor cyn-ymgeisio yn uniongyrchol gan ACLlau.

**Graddfeydd amser ar gyfer rhoi cyngor cyn-ymgeisio**

2.24. Dylid ymdrin â cheisiadau am gyngor cyn-ymgeisio o fewn 28 niwrnod o ddyddiad y cais, neu'r cyfryw gyfnod hirach ag y gallai'r Arolygiaeth ei bennu.

**Cyhoeddi cyngor cyn-ymgeisio**

2.25. Yn ystod y cam cyn-ymgeisio, pan fydd gwybodaeth fasnachol neu wybodaeth arall sensitif yn cael ei chynnwys, ceisir cytundeb yr ymgeisydd ynglŷn â phryd i gyhoeddi'r cyngor. Fodd bynnag, pan fydd y cais wedi cael ei gyflwyno, neu pan fydd y cyfnod 12 mis ar ôl hysbysu wedi mynd heibio ac nid oes cais wedi cael ei gyflwyno, bydd yr Arolygiaeth yn cyhoeddi'r cyngor.

2.26. Dylai ymgeiswyr nodi rhwymedigaethau'r Arolygiaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a/neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

## *Datganiadau Tir Cyffredin*

2.27. Nid oes gofyniad statudol i gynhyrchu Datganiadau Tir Cyffredin (SoCGs) yn y broses DNS, ond gallant fod yn ddefnyddiol iawn a byddant yn cyfrannu at broses archwilio effeithlon.

2.28. Pan fwriedir i elfennau o gais DNS fod yn destun Gwrandawiad neu Ymchwiliad, bydd SoCGs yn ddefnyddiol iawn hefyd wrth ganolbwyntio ar unrhyw faterion y mae'r partïon yn anghytuno arnynt.

2.29. Dylai datganiad tir cyffredin:

- fod yn ddogfen unigol, a luniwyd ac a gymeradwywyd gan y ddau barti;
- bod yn gryno ac osgoi dyblygu gwybodaeth a gyflwynwyd eisoes gan y partïon;

- cynnwys rhestr o ddogfennau craidd y cytunwyd arnynt a/neu a rennir, hyd yn oed os anghytunir ynglŷn â'r dehongliad ohonynt a'u perthnasedd. Nid oes angen cynnwys rhannau o Bolisi Cynllunio Cymru neu Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), bydd cyfeiriadau'n ddigonol;
- amlygu meysydd tir cyffredin, yn ogystal â'r prif bwyntiau y mae'r partïon yn anghytuno arnynt;
- amlygu elfennau y cytunir arnynt o'r dystiolaeth ac unrhyw astudiaethau technegol a gynhaliwyd, gan gynnwys canfyddiadau y cytunir arnynt, hyd yn oed os anghytunir ynglŷn â'r dehongliad ohonynt a'u perthnasedd;
- amlygu p'un a oes unrhyw amodau neu rwymedigaethau cynllunio a fyddai'n mynd i'r afael ag unrhyw anghytundeb neu wrthwynebiad yn foddhaol.

# 3. Cyflwyno

3.1. Yn dilyn y camau hysbysu a chyn-ymgeisio, cam nesaf cais DNS yw cyflwyno.

3.2. Mae'n rhaid i unrhyw gais gael ei gyflwyno o fewn 12 mis o hysbysu (y cam blaenorol).

3.3. Pan fydd y cais DNS wedi cael ei gyflwyno, ni ellir gwneud unrhyw newidiadau o bwys iddo, felly mae'n rhaid i'r cais a gyflwynir fod y cynnig terfynol.

**Rhestr Wirio Derbyn Cais**

3.4. I helpu i benderfynu a yw ceisiadau o safon foddhaol i gael eu dilysu, mae'r tabl isod yn amlygu'r gofynion cyffredinol lleiaf y mae'n rhaid i gais DNS eu cynnwys.

| **Dogfennau i'w Cyflwyno gyda Chais DNS** |
|---|
| Mae'n rhaid i bob cais DNS gynnwys:<br><br>• Ffurflen gais wedi'i llenwi<br>• Copi o'r hysbysiad o dderbyn (yr hysbysiad)<br>• Cynllun lleoliad o'r safle<br>• Yr holl gynlluniau eraill sy'n berthnasol<br>• Copi o dystysgrifau perchenogaeth tir<br>• Datganiad Dylunio a Mynediad<br>• Adroddiad Ymgynghori Cyn-ymgeisio<br><br>*Os oes angen EIA ar y datblygiad:*<br>• mae'n rhaid cyflwyno Datganiad Amgylcheddol (ES) hefyd.<br>*Os nad oes angen EIA ar y datblygiad:*<br>• mae'n rhaid cyflwyno cyfarwyddyd sgrinio negyddol hefyd.<br>*Os yw'r datblygiad yn ymwneud â Thir y Goron:*<br>• mae'n rhaid cyflwyno datganiad sy'n cynnwys awdurdodaeth hefyd.<br>*Os yw'r cais yn cynnwys Cydsyniadau Eilaidd*:<br>• mae'n rhaid i ddatganiad ysgrifenedig sy'n amlinellu unrhyw gydsyniadau eilaidd gyd-fynd â chais hefyd. |

3.5. Ni fydd cydymffurfio â'r rhestr wirio hon yn gwarantu y bydd y cais yn cael ei dderbyn.

3.6. Mae 'ffi gychwynnol' yn gysylltiedig â chyflwyno cais DNS, y mae rhagor o fanylion amdani ar gael yn yr adran Ffïoedd a Chyllid.

3.7. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r camau i'w cymryd gan yr ymgeisydd cyn cyflwyno cais.

| **Camau i'w cymryd gan yr Ymgeisydd cyn cyflwyno cais** |
| --- |
| • Ymgynghori ag ymgyngoreion perthnasol<br>• Rhoi hysbysiad ysgrifenedig i berchenogion/meddianwyr tir gerllaw'r safle<br>• Cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol<br>• Arddangos hysbysiad safle ar y safle neu'n agos iddo (am 42 diwrnod o leiaf)<br>• Cyhoeddi'r cais/dogfennau ategol ar y wefan (am 42 diwrnod o leiaf)<br>• Talu'r ffi sy'n ofynnol<br>• Rhoi copi o'r cais i'r ACLl<br>• *Os yw'r cais yn cynnwys cydsyniadau eilaidd: ymgynghori â'r corff perthnasol* |

### *Sut dylai dogfennau cais gael eu paratoi?*

3.8. Wrth baratoi dogfennau cais, dylid dilyn y cyngor isod:

- Mae'n rhaid rhifo tudalennau a pharagraffau pob un o ddogfennau'r cais. Dylid rhifo paragraffau o fewn atodiadau hefyd.

- O ran dogfennau ysgrifenedig, dylid argraffu ar ddwy ochr y dudalen cyn belled ag y bo'n bosibl.

- O ran dogfennau a gyflwynir trwy e-bost, ni ddylai maint y ffeiliau fod yn fwy na 15MB yr un a dylent fod ar ffurf PDF.

- Dylai pob dogfen gynnwys tabl cynnwys sy'n rhoi penawdau penodau neu bynciau, oni bai bod y ddogfen yn cynnwys datganiad byr nad yw'n fwy na dwy dudalen A4.

- Pan fo'r ddogfen yn cynnwys cynllun neu gynlluniau, mae'n rhaid i'r rhain gael eu labelu'n eglur.

- Dylid cynhyrchu rhestr o ddiwygiadau fel bod modd amlygu fersiwn ddiweddaraf y cynllun neu'r ddogfen yn rhwydd ar unrhyw adeg.

- Dylai pob dogfen ysgrifenedig gynnwys rhestr termau. Dylai dogfennau mwy gynnwys llyfryddiaeth wedi'i chyfeirnodi'n eglur hefyd.

- Dylid defnyddio maint ffont 11pt o leiaf ar gyfer y prif destun mewn adroddiadau, a dylai'r ffont ei hun fod yn un adnabyddadwy ac eglur, fel Arial neu Verdana.

- Dylai unrhyw gyfeiriadau at ddogfennau perthnasol gyfeirio at y darn penodol, y polisi penodol neu'r rhan berthnasol o'r ddogfen.

- Heblaw mewn achosion eithriadol, ni ddylid cyflwyno gwybodaeth fideo na sain. Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i ymgynghori â'r Arolygiaeth cyn cyflwyno gwybodaeth o'r fath.

- Dylai unrhyw ffotograffau gael eu labelu, eu hanodi a'u dyddio'n gywir. Dylid nodi'r man lle y tynnwyd ffotograffau ar fap. Mae'n rhaid rhoi manylion y camera a'r math o lens a ddefnyddiwyd hefyd.

**Atodiadau**

3.9. Dylai atodiadau gael eu cyfeirnodi a'u mynegeio a cheir eu rhwymo ar wahân lle y bo'n briodol.

3.10. Mae'n bwysig bod perthnasedd atodiadau'n cael ei esbonio'n eglur yn y ddogfen y maen nhw'n ymwneud â hi.

### *Sut dylai dogfennau cais gael eu trefnu?*

3.11. Mae'n bwysig sicrhau ei bod hi'n rhwydd llywio symiau mawr o wybodaeth. Dylid osgoi dyblygu a chynnwys diangen.

3.12. Argymhellir y dylid darparu mynegai electronig strwythuredig i'r cais, sy'n amlygu'r holl ddogfennau a gyflwynwyd gyda'r cais, ac sy'n disgrifio'r wybodaeth a gynhwysir ym mhob dogfen mewn iaith hawdd ei deall.

3.13. I gynorthwyo â dilysu, dylai copïau caled cais gael eu rhoi yn yr un drefn â'r fersiwn electronig.

3.14. Dylai pob dogfen a gyflwynir sy'n fwy na 1,500 o eiriau gynnwys crynodeb o'r materion allweddol a gynhwysir ynddi. Ni ddylai'r crynodeb fod yn fwy na 1,500 o eiriau, neu 10% o faint y ddogfen wreiddiol, pa un bynnag sydd byrrach.

3.15. Dylai'r cyfeirnodau ffeil ar gyfer pob cynllun neu ddogfen a gyflwynir gyda'r cais gynnwys: enw'r cynllun; teitl y ddogfen neu'r cynllun; cyfeirnod unigryw'r cynllun neu'r ddogfen; rhif paragraff y Rheoliad priodol y mae'r ddogfen yn ymwneud ag ef; dyddiad cynhyrchu'r cynllun neu'r ddogfen; yr awdur(on); a nodyn cronolegol o unrhyw ddiwygiadau a wnaed i'r cynllun neu'r ddogfen gan gynnwys rhif y cynllun diwygiedig neu'r ddogfen ddiwygiedig.

3.16. Gallai ceisiadau sydd wedi'u trefnu a'u cyflwyno'n wael fod mewn perygl uwch o beidio â chael eu dilysu.

### *Sut dylai'r cais gael ei gyflwyno?*

3.17. Caiff ymgeiswyr gyflwyno cais DNS yn electronig trwy wefan DNS Cymru. Dylai'r ymgeisydd gysylltu â'r Arolygiaeth i drafod cyflwyno dogfennau mawr yn electronig.

3.18. Pan gyflwynir cais yn electronig, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu copi caled i'r Arolygiaeth a'r ACLl ar yr un diwrnod.

3.19. Dylai copïau papur o geisiadau gael eu cyflwyno o fewn oriau gwaith 9am-5pm, dydd Llun i ddydd Gwener (heblaw am wyliau banc y Deyrnas Unedig (DU)).

Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl 5pm yn cael eu trin fel petaent wedi'u derbyn y diwrnod canlynol.

3.20. Dylai pob copi papur o'r cais gael ei ddarparu fel pecyn unigol.

3.21. Dylai copïau caled o geisiadau gael eu cyflwyno i'r canlynol:

Y Tîm Gwaith Achos Mawr
Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

### *Beth sy'n digwydd ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno?*

3.22. Rhoddir 28 niwrnod (42 diwrnod pan fydd angen EIA ar y datblygiad) i'r Arolygiaeth benderfynu a yw'r cais yn ddilys.

3.23. Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad, gan gynnwys y rhesymau pam nad yw wedi cael ei ddilysu, yn yr achos hwnnw.

**Cyhoeddi Dogfennau a Gyflwynwyd**

3.24. Bydd yr Arolygiaeth yn cyhoeddi dogfennau cais cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

3.25. Er y bydd y rhan fwyaf o ddogfennau'r cais yn cael eu cyhoeddi ar y wefan DNS, bydd angen cadw gwybodaeth yn gyfrinachol mewn rhai amgylchiadau.

3.26. Pan fwriedir i ddogfennau aros yn gyfrinachol, dylai'r ymgeisydd ddarparu'r rhain fel dogfennau ar wahân a nodi eu natur gyfrinachol yn eglur yn y teitl, gyda dyfrnod ar bob tudalen sy'n ailadrodd hynny.

3.27. Ni ddylai gwybodaeth gyfrinachol gael ei chynnwys o fewn dogfennau eraill sydd wedi'u bwriadu i'w cyhoeddi neu y byddai angen i'r Arolygiaeth eu datgelu o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gwybodaeth yn ymwneud â lleoliad brochfeydd moch daear.

**Diogelu Data a Phreifatrwydd**

3.28. Dylai ymgeiswyr osgoi cynnwys unrhyw ddata personol sy'n ymwneud ag unigolion yn y dogfennau a gyflwynir ganddynt; yn enwedig yr adroddiad ymgynghori.

3.29. Mae'n rhaid i'r Arolygiaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) 2018 wrth drin gwybodaeth bersonol, ac mae'n rhaid iddi hepgor manylion personol cyn cyhoeddi.

# 4. Ymgynghori a Chyhoeddusrwydd

4.1 Ar ôl i gais DNS dilys gael ei gadarnhau'n ffurfiol, bydd y cyfnod pum wythnos ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau yn dechrau. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yr Arolygiaeth yn cynnal ymgynghoriad a chyhoeddusrwydd perthnasol.

4.2 Mae'r cam hwn yn rhoi cyfle i ymgyngoreion arbenigol a Chynghorau Cymuned gyflwyno cynrychiolaethau terfynol ynglŷn â'r cais DNS.

***Sut bydd y cyfnod ymgynghori a chyhoeddusrwydd yn cael ei gynnal?***

4.3 Ymgynghorir ag ymgyngoreion arbenigol penodol a Chynghorau Cymuned trwy e-bost, a darperir dolenni i fersiynau electronig o ddogfennau'r cais.

4.4 Mae'n rhaid i ymgyngoreion wneud 'ymateb perthnasol' neu gadarnhau na fydd sylwadau'n cael eu gwneud. Gellir ymestyn terfynau amser os yw'r ymgynghorai statudol a'r ymgeisydd yn cytuno, ac nid yw'n cael effaith negyddol ar amserlen yr archwiliad.

4.5 Nid yw'n ofynnol i'r Arolygiaeth gysylltu ag unrhyw un sydd wedi mynegi diddordeb mewn ymwneud â'r ymgynghoriad a/neu a wnaeth sylwadau'n flaenorol ar y prosiect DNS drafft yn ystod y cam cyn-ymgeisio.

4.6 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gofynion cyhoeddusrwydd a'r cyrff sy'n gyfrifol.

| Y corff sy'n gyfrifol | Gofyniad cyhoeddusrwydd neu ymgynghori |
|---|---|
| Yr Arolygiaeth | Llythyrau at ymgyngoreion statudol |
| | Cyhoeddi deunydd ar y wefan DNS |
| | Rhoi gwybod i ACLl(au) am y gofyniad i gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) |
| | Hysbysiad i'r wasg mewn papur newydd lleol |
| Yr Arolygiaeth, gyda chyfraniad gan yr ACLl | Llythyrau hysbysu cymdogion |
| | Hysbysu Cynghorau Cymuned |
| | Llythyrau at bartïon â buddiant a sefydliadau |
| ACLl | Gosod hysbysiadau safle (copïau i'w cyflenwi gan yr Arolygiaeth) |
| | Rhoi copi o'r cais ar y gofrestr cynllunio lleol |

4.7 Cyn y cyfnod ymgynghori, bydd yr Arolygiaeth yn cysylltu â'r ACLl i amlygu'r camau y mae'n ofynnol i'r Awdurdod eu cymryd. Fel arfer, bydd hyn yn golygu anfon hysbysiad safle enghreifftiol a gofyn am wybodaeth am Gynghorau Cymuned perthnasol a chymdeithasau lleol perthnasol.

### *Cynrychiolaethau*

4.8 Caiff unrhyw un gyflwyno cynrychiolaeth. Cyhyd â'i bod wedi cael ei derbyn o fewn y cyfnod a bennwyd, caiff ei chofnodi a'i chyhoeddi gan yr Arolygiaeth.

4.9 Wrth gyhoeddi cynrychiolaethau, bydd unrhyw ddata personol sensitif yn cael ei hepgor yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2018 a Deddf Diogelu Data 1998.

4.10 Ni fydd enwau a chyfeiriadau'r rhai sydd wedi cyflwyno cynrychiolaethau yn cael eu hepgor, oni bai eu bod wedi gofyn yn benodol i'r manylion hynny gael eu celu. Ym mhob achos, mae'n arferol i fanylion y rhai sydd wedi cyflwyno cynrychiolaethau gael eu cadw ar gofnodion mewnol.

### *Adroddiadau ar yr Effaith Leol*

4.11 Mae'n ofynnol i'r ACLl(au) perthnasol ar gyfer yr ardal y mae'r cais DNS wedi'i leoli ynddi gynhyrchu Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) (rhoddir mwy o arweiniad ar hyn yn Atodiad 5).

### *Amrywio'r Cais DNS*

4.12 Ar ôl i'r cyfnod pum wythnos ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau ddod i ben, rhoddir 10 niwrnod i'r ymgeisydd ystyried p'un a yw eisiau 'amrywio'r' cais DNS.

4.13 Os yw'r ymgeisydd eisiau amrywio'r cynllun, mae'n rhaid iddo lenwi'r ffurflen 'Hysbysiad o fwriad i amrywio' a'i hanfon ymlaen i'r Arolygiaeth.

4.14 Os yw'r Arolygiaeth yn cytuno i'r amrywiad, mae'n rhaid i unrhyw ddogfennau cais diwygiedig gael eu cyflwyno o fewn 28 niwrnod. Bydd yr Arolygiaeth yn gohirio'r archwiliad DNS yn ystod y cyfnod hwn.

4.15 Os na dderbynnir yr amrywiad, bydd y cynllun fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol yn parhau i gael ei archwilio.

4.16 Ni all yr Arolygiaeth archwilio cynllun diwygiedig os yw'r amrywiad arfaethedig yn sylweddol; dim ond mân newidiadau a dderbynnir.

# 5. Yr Archwiliad

5.1 Ar ôl i gyflwyniad DNS dilys gael ei dderbyn, bydd Arolygydd yn cael ei benodi i archwilio'r cais. Yn dibynnu ar y math o brosiect a'i raddfa, gallai'r Arolygydd gael ei gynorthwyo gan Swyddog Cynllunio, Arolygydd Cynorthwyol neu Aseswr.

### *Pa mor hir y bydd yr archwiliad yn ei gymryd?*

5.2 Y cyfnod a roddir i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ar gais DNS yw 36 wythnos o ddyddiad derbyn y cais dilys.

5.3 Er mwyn bodloni'r raddfa amser hon, mae'n rhaid i'r Arolygiaeth gyflwyno ei hadroddiad i Weinidogion Cymru o fewn 24 wythnos. Mae hyn yn caniatáu cyfnod 17 wythnos ar gyfer yr archwiliad DNS.

5.4 Os oes angen Gwrandawiad ar yr archwiliad, mae'n rhaid i hwn gael ei gynnal o fewn 10 wythnos o ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau (erbyn wythnos 15). Os oes angen Ymchwiliad, mae'n rhaid i hwn gael ei gynnal o fewn 13 wythnos o ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau (erbyn wythnos 18).

5.5 Gall Gweinidogion Cymru ymestyn y graddfeydd amser hyn mewn amgylchiadau eithriadol.

5.6 Os yw'r cais DNS yn ymwneud â llinellau trydan uwchben, bydd y raddfa amser ar gyfer yr archwiliad yn cael ei lleihau i 24 wythnos, os bydd yr Arolygydd yn penderfynu arno ar ei ben ei hun. Gallai Gweinidogion Cymru benderfynu ar geisiadau o'r fath hefyd ac, os felly, byddai'r cyfnod penderfynu 36 wythnos statudol yn berthnasol.

### *Beth yw'r weithdrefn ar gyfer yr archwiliad?*

5.7 Bydd yr Arolygiaeth yn cadarnhau'r weithdrefn yn ysgrifenedig o fewn 7 wythnos o'r dyddiad dilysu.

5.8 Gallai'r archwiliad gael ei gynnal trwy gyfrwng cynrychiolaethau ysgrifenedig, Gwrandawiad neu Ymchwiliad, neu gyfuniad o'r tri.

**Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau**

5.9 Bydd sesiwn Gwrandawiad neu Ymchwiliad yn canolbwyntio ar y materion a godwyd gan yr Arolygydd yn unig, a bydd yr holl faterion eraill yn derbyn sylw trwy gynrychiolaethau ysgrifenedig.

5.10 Mae Gwrandawiad yn darparu lleoliad anffurfiol i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd gan yr Arolygydd. Caiff y rhai sy'n mynychu ddod â chynghorwyr proffesiynol gyda nhw, ond ni fydd tystiolaeth yn cael ei chyflwyno'n ffurfiol, ac ni fydd croesholi na chyflwyniadau ffurfiol.

5.11 Mae Ymchwiliad yn debygol o gael ei drefnu dim ond pan fydd materion cymhleth neu dystiolaeth dechnegol. Bydd tystion yn cyflwyno tystiolaeth ac yn cael eu croesholi a'u holi drachefn pan fydd angen.

5.12 Dim ond y bobl hynny y mae'r Arolygydd yn credu y byddant yn ei gynorthwyo â materion penodol a fydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn Gwrandawiad neu Ymchwiliad. Bydd pawb a wahoddir i fynychu yn cael ei hysbysu'n uniongyrchol.

5.13 Caiff y rhai a wahoddir i gymryd rhan mewn Gwrandawiad neu Ymchwiliad gyflwyno cynrychiolaeth ychwanegol i ymateb i'r materion a godwyd gan yr Arolygydd, na ddylai fod yn fwy na 3,000 o eiriau.

5.14 Gallai unrhyw ddatganiadau sy'n rhy hir neu sy'n cynnwys deunydd amherthnasol neu ailadroddus gael eu dychwelyd. Dylai unrhyw dystiolaeth dechnegol gael ei chyfyngu i atodiadau, a dylai ymwneud yn eglur â'r achos.

5.15 Dylai cyfranogwyr gadw at yr amserlen a osodwyd gan yr Arolygydd ar gyfer cyflwyno datganiadau ysgrifenedig. Mae cyflwyniadau hwyr a phapurau ychwanegol yn annhebygol o gael eu derbyn ar y diwrnod a gallent arwain at ohirio digwyddiad.

5.16 Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r amserau a'r lleoliadau ar gyfer pob Gwrandawiad ac Ymchwiliad, ac maent yn agored i bawb eu harsylwi. Caiff y rhai na wahoddwyd i gymryd rhan siarad yn ôl disgresiwn yr Arolygydd, ond cyfyngir ar hyn i faterion sy'n cael eu harchwilio yn y Gwrandawiad neu'r Ymchwiliad.

### *A fydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle?*

5.17 Bydd yr Arolygydd bob amser yn ymweld â'r safle. Pan fydd modd gweld popeth o fan cyhoeddus, bydd yr Arolygydd yn cynnal yr ymweliad yn ddigwmni. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i'r Arolygydd gael mynediad.

5.18 Ni fydd rhinweddau'r cais yn cael eu trafod yn ystod unrhyw ymweliad safle.

5.19 Os bydd unrhyw un yn credu na ddylai'r ymweliad fod yn ddigwmni neu'n dymuno i'r Arolygydd edrych ar y safle o'i eiddo, dylai gyflwyno ei resymau i'r Swyddog Achos.

### *A all yr archwiliad gael ei ohirio?*

5.20 Caiff yr Arolygiaeth ohirio'r archwiliad mewn rhai amgylchiadau. Gellir ymestyn dyddiad terfyn y cyfnod gohirio.

5.21 Caiff yr Arolygiaeth gyhoeddi mwy nag un hysbysiad gohirio pan achosir sawl oedi i gais DNS.

5.22 Crynhoir isod enghreifftiau o'r amgylchiadau pan ellir ystyried gohirio.

- *Pan fydd angen penderfynu ar ymrwymiadau cyfreithiol rhwng awdurdodau cynllunio lleol, trydydd partïon a'r ymgeisydd*
- *Pan fydd polisi'n cael ei newid neu ei adolygu'n sylweddol*

- *Pan fydd ymgeisydd yn gofyn am gael diwygio cynllun*
- *Pan ganfyddir bod dogfennau ategol yn ddiffygiol*
- *Pan na fydd partïon hanfodol yn mynychu Gwrandawiad neu Ymchwiliad*
- *Pan fydd cydsyniad eilaidd newydd yn cael ei 'alw i mewn' gan Weinidogion Cymru*

### *Bod yn agored ac yn dryloyw yn ystod yr archwiliad*

5.23 Bydd holl ddogfennau'r cais, yr holl gynrychiolaethau a'r holl gyflwyniadau eraill yn cael eu cyhoeddi, ynghyd ag unrhyw geisiadau am wybodaeth ychwanegol ac unrhyw faterion i'w trafod mewn Gwrandawiad neu Ymchwiliad.

# 6.Y Penderfyniad

6.1 Ar ddiwedd y cam archwilio, bydd yr Arolygydd yn rhoi adroddiad i Weinidogion Cymru sy’n cynnwys ei gasgliadau a’i argymhellion. Yna, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi llythyr penderfyniad sy’n cynnwys eu penderfyniad ar y cais DNS ac unrhyw gydsyniadau eilaidd cysylltiedig.

6.2 Yn yr adroddiad, bydd yr Arolygydd yn ystyried:

- y dystiolaeth a’r dogfennau a oedd yn cyd-fynd â’r cais;
- lle y’u derbyniwyd o fewn y terfynau amser perthnasol; yr Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR), yr holl gynrychiolaethau, cyflwyniadau a thrafodaethau yn ystod unrhyw Wrandawiad neu Ymchwiliad;
- unrhyw ddeddfwriaeth a pholisïau perthnasol, gan gynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth, polisïau newydd Llywodraeth Cymru ac unrhyw bolisïau cynllun datblygu newydd neu sy’n dod i’r amlwg; ac
- unrhyw faterion eraill sy’n berthnasol i’r cais.

6.3 Ni fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar yr adeg hon. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi pan fydd Gweinidogion Cymru wedi gwneud y wybodaeth honno’n gyhoeddus. Bydd penderfyniad Gweinidogion Cymru yn cael ei amlinellu yn y llythyr penderfyniad.

6.4 Bydd adroddiadau’n cael eu cyfieithu i’r Gymraeg cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

6.5 Pan fydd yr Arolygydd yn benderfynwr terfynol (ar geisiadau ar gyfer llinellau trydan uwchben 132kV), bydd yr Arolygiaeth yn cyhoeddi’r llythyr penderfyniad terfynol a bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn gyhoeddus.

### *A ellir herio penderfyniad?*

6.6 Nid oes hawl apelio yn erbyn penderfyniad y Gweinidog.

6.7 Mae’n rhaid i geisiadau i herio penderfyniad yn yr Uchel Lys gael eu derbyn gan y Llys Gweinyddol o fewn 42 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad.

### *Pwy sy’n sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd?*

6.8 Yr ACLl sy’n llwyr gyfrifol am fonitro a gweithredu’r caniatâd a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â’r cynlluniau ac unrhyw amodau.

6.9 Os yw’r ACLl o’r farn nad yw’r datblygiad yn cydymffurfio â’r caniatâd, mae ganddo’r grym i gymryd camau gorfodi.

### *Adborth a chwynion*

6.10 Croesewir adborth, cadarnhaol a negyddol, ar unrhyw brofiadau o'r broses DNS. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: https://gov.wales/topics/planning/appeals/feedback-and-complaints/?lang=en

6.11 Byddwn yn ymchwilio i gwynion ynglŷn ag Arolygydd neu'r ffordd y gweinyddwyd achos yn unol â'n polisi cyhoeddedig ar gwynion a heriau.

# 7. Ffïoedd a Chyllid

7.1 Mae'r gyfundrefn DNS yn cael ei gweithredu ar sail 'adennill costau' llawn, ac felly mae ffioedd i'w talu ar gamau amrywiol o'r broses. Mae Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffïoedd) (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) yn rhoi'r manylion llawn.

7.2 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r costau sydd i'w talu o flaen llaw, ac y gallai unrhyw oedi wrth dalu'r ffi berthnasol arwain at oedi'r broses ymgeisio.

7.3 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r costau sylfaenol sy'n gysylltiedig â chais DNS.

| **Costau Dewisol** | |
|---|---|
| | |
| Gwasanaethau Cyn-ymgeisio – ACLl | £1,500 |
| Gwasanaethau Cyn-ymgeisio – yr Arolygiaeth | Cyfradd o £55 yr awr (yn ogystal â TAW) |
| | |
| **Costau Hanfodol** | |
| | |
| Ffi Hysbysu | £580 |
| Ffi Gychwynnol (i'w thalu wrth gyflwyno) | £15,350 |
| Ffi ar gyfer yr LIR (i'w thalu wrth gyflwyno) | £7,750 (fesul ACLl perthnasol) |
| Ffïoedd ar gyfer Archwilio'r Cais<br><br>Cynrychiolaethau Ysgrifenedig<br>Gwrandawiad neu Ymchwiliad | <br><br>Cyfradd ddyddiol o £870<br>Cyfradd ddyddiol o £920 |
| Ffi benderfynu (sy'n berthnasol i bob prosiect DNS, heblaw am geisiadau ar gyfer llinellau trydan uwchben) | £14,700 (i'w dalu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru) |

7.4 Gall costau ychwanegol gronni drwy gydol y broses o archwilio cais DNS, felly canllaw yn unig yw'r tabl uchod.

7.5 Telir y ffi benderfynu yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r elfen hon o'r strwythur ffïoedd gael eu cyfeirio at Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru. Gellir cysylltu â nhw trwy:

planning.directorate@gov.wales

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

0300 060 4400

**Amcangyfrif Costau**

7.6 Nid yw'n bosibl i'r Arolygiaeth amcangyfrif cost yr archwiliad cyn cael cyflwyniad.

7.7 Bydd amcangyfrif o nifer y diwrnodau y bydd eu hangen ar yr Arolygydd i archwilio'r DNS yn cael ei roi ar ôl cadarnhau'r weithdrefn. Nid yw hyn yn gwarantu cost ar gyfer yr archwiliad a dylid ei ddefnyddio fel canllaw yn unig.

***Cyllid***

**Ad-daliadau a Pheidio â Chodi Tâl**

7.8 Mae gan ymgeiswyr yr hawl i gael ad-daliad o ran y ffi LIR, pan fydd un o'r canlynol yn berthnasol:

- pan fydd yr ACLI wedi cyflwyno'r LIR y tu allan i'r terfyn amser (rhoddir rhagor o fanylion yn y rheoliadau)
- pan fydd yr ymgeisydd yn tynnu'r cais yn ôl cyn i'r LIR gael ei gyflwyno gan yr ACLI
- pan nad yw'r Arolygiaeth yn derbyn y cais yn un dilys

7.9 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol nad yw ad-daliadau a pheidio â chodi tâl yn berthnasol i unrhyw ffïoedd neu gostau DNS eraill mewn unrhyw amgylchiadau.

**Anfonebu**

7.10 Mae'r Arolygiaeth yn gallu anfonebu ymgeiswyr am ffïoedd penodol. Cynghorir ymgeiswyr y dylid gofyn am y rhain cyn i daliadau fod yn ddyledus.

7.11 Os oes angen archeb brynu ar ymgeiswyr, gellir trefnu hyn, ond mae'n rhaid gwneud ceisiadau i'r Arolygiaeth o'r cychwyn cyntaf.

7.12 Gall anfonebau am gostau parhaus yr archwiliad (cyfraddau dyddiol, costau teithio, ac ati) gael eu rhoi i ymgeiswyr unwaith ar ddiwedd y broses, neu'n fisol. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r Arolygiaeth am ei ddewis.

**Methu â Thalu Costau Archwiliad**

7.13 Rhaid talu unrhyw ffi sy'n gysylltiedig â'r archwiliad o fewn 21 diwrnod o ddyddiad anfon yr anfoneb berthnasol at yr ymgeisydd. Os bydd yr ymgeisydd yn methu â thalu unrhyw ffi o fewn y cyfnod o 21 diwrnod, mae'n bosibl na fydd yr Arolygiaeth yn cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r cais hyd nes y derbynnir taliad.

7.14 Bydd methu â thalu unrhyw ffi sy'n ddyledus o fewn 12 wythnos yn arwain at beidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r cais, a bernir bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.

**Talu Ffïoedd**

7.15 Gall ffïoedd DNS sydd i'w talu gan yr ymgeisydd gael eu trosglwyddo trwy BACS neu, fel y manylir uchod, gellir anfon anfonebau'n uniongyrchol o'r Arolygiaeth i'r ymgeisydd.

7.16 Nid yw'r Arolygiaeth yn cael ei hysbysu'n awtomatig am daliadau, felly mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn cysylltu â ni pan fydd ffïoedd wedi cael eu talu, i osgoi oedi wrth brosesu'r cais.

**Cylch Gorchwyl**

7.17 Mae cylch gorchwyl ariannol ar gael i ymgeiswyr. Cysylltwch â ni os bydd arnoch angen copi ohono.

# Atodiad 1: Rôl cyrff cyhoeddus

1.1 Mae'r atodiad hwn yn esbonio sut mae cyrff cyhoeddus eraill yn ymwneud â'r broses DNS, o ran rolau fel ymgyngoreion ar brosiectau DNS arfaethedig a lle mae gan gyrff o'r fath rymoedd cydsynio cyfochrog.

## *Pa gyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig?*

### Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

1.2 Mae gan CNC statws ymgynghorai arbenigol yn y broses DNS. Yn nodweddiadol, mae hyn yn golygu:

- Rhoi cyngor cyn-ymgeisio (anffurfiol) i'r ymgeisydd
- Rhoi ymateb perthnasol i'r ymgynghoriad cyn-ymgeisio (ffurfiol)
- Rhoi ymateb perthnasol i'r ymgynghoriad ar y cais a gyflwynwyd
- Darparu cynrychiolaethau ysgrifenedig ychwanegol neu dystiolaeth arbenigol yn ystod yr archwiliad.

1.3 Mae CNC yn gorff ymgynghori yn y broses Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA). Mae hyn yn golygu:

- Rhoi cyngor yn ystod y broses sgrinio
- Rhoi cyngor yn ystod y broses gwmpasu
- Rhoi barn am y Datganiad Amgylcheddol drafft
- Rhoi barn am y Datganiad Amgylcheddol terfynol
- Darparu cynrychiolaethau ysgrifenedig ychwanegol neu dystiolaeth arbenigol yn ymwneud â'r EIA yn ystod yr archwiliad.

1.4 Mae CNC hefyd yn gyfrifol am roi cydsyniadau neu drwyddedau o dan nifer o Ddeddfau. Nid yw'r cydsyniadau/trwyddedau ychwanegol hyn yn rhan o'r broses ymgeisio DNS, ond fe allent fod yn ofynnol i weithredu'r prosiect. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghanllawiau DNS CNC.

### Llywodraeth Cymru

1.5 Gellir ymgynghori â gwahanol ganghennau o Lywodraeth Cymru, fel Cadw, ynglŷn ag agweddau penodol o'r broses EIA.

### ACLlau

1.6 Gallai Awdurdod Lleol fod yn ymgynghorai arbenigol ar gais DNS, yn ogystal â rhoi safbwynt lleol pwysig yn ystod y cam cyn-ymgeisio.

## *Pryd mae cyrff cyhoeddus yn ymwneud â'r broses DNS?*

### Y Cam Cyn-ymgeisio

1.7 Yn ystod y cam cyn-ymgeisio statudol, mae'n ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori ag ymgyngoreion arbenigol neu unigolion perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys

sefydliadau sydd ag arbenigedd penodol mewn materion sy'n berthnasol i'r cynnig neu gyfrifoldeb am y materion hynny.

1.8 Dylai ymgeiswyr amlygu ymgyngoreion arbenigol neu unigolion perthnasol tebygol yn gynnar yn ystod proses datblygu'r prosiect, a cheisio ymgysylltu â'r cyrff hyn cyn yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio ffurfiol.

**Asesu Effeithiau Amgylcheddol**

1.9 Os bydd ymgeisydd yn rhoi gwybod i'r Arolygiaeth ei fod yn bwriadu darparu Datganiad Amgylcheddol (ES), neu os yw'r Arolygiaeth wedi cyhoeddi cyfarwyddyd sgrinio cadarnhaol, rhoddir gwybod i'r ACLl am ei ddyletswydd[3] i ymgynghori â'r sawl sy'n bwriadu cyflwyno'r ES a darparu gwybodaeth amgylcheddol berthnasol.

1.10 Pan fydd yr Arolygiaeth yn derbyn cais am gyfarwyddyd cwmpasu, ymgynghorir â'r ACLl perthnasol a chyrff eraill cyn cyhoeddi cyfarwyddyd cwmpasu.

**Y Cam Archwilio**

1.11 Mae'r cyfnod ar gyfer cyflwyno cynrychiolaethau, sy'n para 5 wythnos o ddyddiad dilysu cais DNS, yn gyfle i gyrff cyhoeddus perthnasol gyflwyno cynrychiolaethau ynglŷn â rhinweddau'r cynllun.

**Cydsyniadau cysylltiedig**

1.12 Mae'n bosibl y bydd gan rai cyrff cyhoeddus rymoedd i roi cydsyniadau, trwyddedau neu awdurdodiadau.

1.13 Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod wedi ystyried a allai fod angen unrhyw gydsyniadau eraill mewn perthynas â chais DNS. Mae'r ymgeisydd hefyd yn gyfrifol am gysylltu ag unrhyw gyrff cyhoeddus perthnasol i drafod amseru prosesau ymgeisio am gydsyniad perthnasol.

---

[3] Adran 15(5) Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

# Atodiad 2: Cydsyniadau Eilaidd a Chysylltiedig

2.1. I leihau nifer y ceisiadau ar wahân sy'n ofynnol ar gyfer cynllun DNS, gellir cyflwyno rhai ceisiadau cysylltiedig am drwyddedau, gorchmynion, hysbysiadau a chydsyniadau i Weinidogion Cymru ar yr un pryd â chais DNS.

2.2. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gallu galw cydsyniadau eilaidd i mewn os ydynt o'r farn eu bod yn gysylltiedig â chais DNS, ac nid yw'r datblygwr eisoes wedi'u cyflwyno ochr yn ochr â'r prif gais.

2.3. Gallai hyn fod yn berthnasol i gydsyniadau heb eu penderfynu y cyflwynwyd cais amdanynt eisoes i'r awdurdod cydsynio arferol, a'r rhai hynny nad ydynt eto wedi cael eu cyflwyno i unrhyw awdurdod.

**Cyngor Cyn-ymgeisio**

2.4. Dylai ymgynghoriad cyn-ymgeisio gynnwys y cyrff hynny y bwriedir ymgynghori â nhw ynglŷn ag unrhyw gais am gydsyniad eilaidd. Mae'n bosibl y bydd ymgyngoreion gwahanol ar gyfer cydsyniadau eilaidd, felly dylai datblygwyr roi sylw arbennig i'r canllawiau cysylltiedig ar gyfer pob math o gais i amlygu'r ymgyngoreion perthnasol.

2.5. Mae'r cydsyniadau eilaidd perthnasol fel a ganlyn:

| Deddfwriaeth | Cydsyniad |
|---|---|
| Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 - Adran 2 | Rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig, rhoi cydsyniad henebion cofrestredig. |
| Deddf Tiroedd Comin 2006 - Adran 38 | Adrannau 16 a 17 – cyfnewid tir comin;<br>Adran 38 – gwaith ar dir comin. |
| Deddf Priffyrdd 1980 - Adran 178 | Cyfyngiad ar osod rheiliau, trawstiau ac ati dros briffyrdd (cydsyniad). |
| Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 - Adrannau 4, 13 a 17 | Adran 4 – cais am gydsyniad sylweddau peryglus;<br>Adran 13 – ceisiadau am gydsyniad heb amod ynghlwm wrth gydsyniad blaenorol;<br>Adran 17 – cais i barhau â chydsyniad ar gyfer newid rheolaeth tir. |
| Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 - Adrannau 8 a 74 | Adran 8 – awdurdodi gwaith, cydsyniad adeilad rhestredig;<br>Adran 74 – rheoli dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth. |
| Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 - Adrannau 57, 247, 248 a 251 | Adran 57 – angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad<br>Adran 247 – cau neu wyro priffordd;<br>Adran 248 – priffyrdd sy'n croesi neu'n ymuno â llwybr priffordd newydd arfaethedig<br>Adran 251 – diddymu hawliau tramwy dros dir a ddelir at ddibenion cynllunio |

**Cydsyniadau nad ydynt yn eilaidd**

2.6. Yn gynnar yn ystod y broses, dylai ymgeiswyr ystyried a oes angen trwyddedau/cydsyniadau gan CNC neu gyrff eraill, ar wahân i'r broses DNS. Dylai ymgeiswyr geisio cyflwyno cais am unrhyw gydsyniadau cysylltiedig ar yr un pryd â'r cais DNS.

2.7.

***Cydsyniadau Cysylltiedig***

**Gwaith sy'n ymwneud â llinellau trydan uwchben**

2.8. Mae newidiadau a wnaed i'r gyfundrefn DNS yn 2019 yn ychwanegu mwy o gydsyniadau at y system DNS. Mae gosod llinellau trydan uwchben sydd â foltedd o 132KV neu lai, ac sy'n gysylltiedig â gorsafoedd cynhyrchu datganoledig yng Nghymru, yn cael ei ystyried yn rhan o'r gyfundrefn DNS bellach.

2.9. Mae'n rhaid i geisiadau am linellau trydan uwchben ddisgrifio'r hyd a'r foltedd, a chynnwys datganiad sy'n nodi p'un a yw'r holl fforddfreintiau angenrheidiol wedi cael eu cytuno â pherchenogion a meddianwyr y tir y bydd y llinell yn ei groesi.

# Atodiad 3: Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA)

3.1 O dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd) ('Rheoliadau 2017'), mae gan Weinidogion Cymru rym i gyfarwyddo pan fydd cais yn ddatblygiad EIA. Caiff ymgeiswyr hefyd benderfynu cynnal EIA yn wirfoddol heb ofyn am gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru.

3.2 Mae'n rhaid cyflwyno Datganiad Amgylcheddol (ES) gyda cheisiadau sy'n 'ddatblygiad EIA', sy'n adrodd ar yr effeithiau tebygol ar yr amgylchedd.

3.3 Hyd yn oed pan nad yw DNS yn ddatblygiad EIA, mae'n bosibl y bydd angen cyflwyno gwybodaeth amgylcheddol benodol gyda'r cais o hyd, er enghraifft asesiad o berygl llifogydd, asesiad o'r effaith dirweddol a gweledol, neu wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol.

## *Ceisiadau DNS ac EIA*

### Y Cam Cyn-ymgeisio

3.4 Mae'n rhaid i ymgeisydd sy'n bwriadu cyflwyno cais DNS roi gwybod i'r Arolygiaeth am y cais arfaethedig yn gyntaf, ac mae'n rhaid i hyn gynnwys cyfarwyddyd sgrinio negyddol neu ddatganiad sy'n cadarnhau y bydd ES yn cael ei ddarparu[4]. Felly, anogir darpar ymgeiswyr i ystyried a fydd angen EIA ar eu cais yn gynnar yn ystod y broses.

3.5 Gall ymgeiswyr ddewis gofyn am gyfarwyddyd sgrinio neu gwmpasu EIA gan yr Arolygiaeth mewn perthynas â cheisiadau DNS. Ni chodir tâl am gyfarwyddiadau sgrinio neu gwmpasu EIA statudol.

### Sgrinio EIA

3.6 Byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r ymgeisydd yn rhoi gwybod o flaen llaw am gais am gyfarwyddyd sgrinio ffurfiol. Byddai ffin llinell goch a gyflwynir o flaen llaw yn fuddiol i'r ymarfer sgrinio hefyd.

3.7 Mae'n rhaid i'r Arolygiaeth gyhoeddi cyfarwyddyd sgrinio o fewn 21 diwrnod o gael cais, oni bai bod amgylchiadau'n mynnu fel arall.

*Gwybodaeth i'w darparu gyda Cheisiadau Sgrinio EIA*

3.8 Mae'r wybodaeth leiaf y mae'n rhaid i ymgeiswyr ei darparu gyda chais sgrinio ar gyfer DNS wedi'i hamlinellu yn Rheoliadau 2017[5]. Mae hyn yn cynnwys cynllun,

4 Erthygl 5 Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016
5 Rheoliad 31 Rheoliadau 2017.

disgrifiad byr o natur a diben y datblygiad, disgrifiad o'i effeithiau posibl ar yr amgylchedd, a datganiad bod y cais yn cael ei wneud mewn perthynas â DNS.

3.9 Wrth ymdrin â'r disgrifiad o'r datblygiad a'i effeithiau posibl ar yr amgylchedd, dylai ymgeiswyr:

- drefnu'r wybodaeth gan ddefnyddio'r penawdau yn Atodlen 3 Rheoliadau 2017, sef:
  - nodweddion y datblygiad;
  - lleoliad y datblygiad; a
  - nodweddion yr effeithiau posibl;
- sicrhau yr ymdrinnir â phob agwedd ar yr amgylchedd y mae'r datblygiad yn debygol o gael effaith arwyddocaol arni.

**Cwmpasu EIA**

3.10 Caiff ymgeisydd ofyn am gyfarwyddyd cwmpasu ffurfiol[6] ar y wybodaeth i'w chynnwys yn yr ES. Mae'n rhaid i'r Arolygiaeth gyhoeddi cyfarwyddyd cwmpasu o fewn 5 wythnos o gael cais cwmpasu, neu'r cyfryw gyfnod hwy ag y gallai fod yn ofynnol yn rhesymol.

3.11 Nid oes rhaid i ymgeisydd ofyn am gyfarwyddyd cwmpasu. Er mwyn cael y budd mwyaf o'r broses, dylai ymgeiswyr ofyn am gyfarwyddyd cwmpasu pan fydd:

- digon o sicrwydd ynglŷn â'r disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, a
- digon o ddealltwriaeth o brif elfennau'r datblygiad arfaethedig sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.

3.12 Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd yr Arolygiaeth ac ymgyngoreion statudol yn gallu darparu sylwadau lefel uchel yn unig pan fydd nifer o wahanol opsiynau dylunio a gosodiad yn parhau i gael eu hystyried.

3.13 Bydd y cyfarwyddyd cwmpasu'n cynnwys unrhyw ymatebion ymgynghori a gafwyd ynglŷn â'r cais cwmpasu, sylwadau ar gwmpas yr ES, a sylwadau ar y fethodoleg a gynigiwyd (gan gynnwys ymgynghoriad awgrymedig).

*Gwybodaeth i'w darparu gyda chais cwmpasu*

3.14 Mae'r wybodaeth leiaf y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ei darparu gyda chais cwmpasu yr un fath â'r wybodaeth leiaf y mae'n rhaid ei darparu gyda chais sgrinio[7].

3.15 Dylai ymgeiswyr gyflwyno eu cais cwmpasu ar ffurf adroddiad cwmpasu. Dylai'r ddogfen hon gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau 2017, ynghyd â'r wybodaeth ychwanegol ganlynol:

---

6 Rheoliad 33 Rheoliadau 2017.
7 Rheoliad 33(2) Rheoliadau 2017.

- amlinelliad o'r prif ddewisiadau amgen a ystyriwyd a'r rhesymau dros ddewis opsiwn a ffefrir;
- canlyniad astudiaethau bwrdd gwaith a llinell sylfaen, os ydynt ar gael;
- cofnod o ymgynghoriad a gynhaliwyd â chyrff perthnasol (gan gynnwys unrhyw ymgysylltiad cyhoeddus) hyd yma;
- cynlluniau wedi'u cyfeirnodi a gyflwynwyd wrth raddfa briodol i gyfleu'r wybodaeth a'r holl agweddau hysbys sy'n gysylltiedig â'r cynnig yn eglur;
- canllawiau ac arfer gorau i ddibynnu arnynt, a ph'un a gytunwyd ar hyn gyda'r cyrff perthnasol (er enghraifft, y cyrff cadwraeth natur statudol neu awdurdodau lleol), ynghyd â chopïau o ohebiaeth i ategu'r cytundebau hyn;
- dulliau a ddefnyddiwyd neu y bwriedir eu defnyddio i asesu effeithiau, a'r fframwaith meini prawf arwyddocâd a ddefnyddiwyd;
- unrhyw fesurau lliniaru a gynigiwyd ac i ba raddau y mae'r rhain yn debygol o leihau effeithiau;
- lle yr amlygwyd effeithiau o ddatblygiad canlyniadol neu gronnol, sut mae'r ymgeiswyr yn bwriadu asesu'r effeithiau hyn yn yr ES (er enghraifft, asesiad lefel uchel o'r cysylltiad grid pan nad yw hyn yn ffurfio rhan o'r datblygiad arfaethedig ar gyfer gorsaf bŵer);
- arwydd o unrhyw safleoedd cadwraeth natur dynodedig Ewropeaidd y mae'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith arwyddocaol arnynt a natur yr effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safleoedd hyn;
- pynciau allweddol yr ymdriniwyd â nhw yn rhan o ymarfer cwmpasu'r ymgeiswyr; ac
- amlinelliad o strwythur yr ES arfaethedig.

3.16 Dylid amlygu elfennau'r datblygiad arfaethedig sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd hefyd. Pan fydd ansicrwydd yn parhau, dylai'r ymgeisydd roi cymaint o fanylion â phosibl neu dybio'r achos gwaethaf.

*Cynnwys Cais Cwmpasu*

3.17 Pan fydd yr ymgeisydd eisiau hepgor materion o'r ymarfer cwmpasu, dylid rhoi cyfiawnhad.

3.18 Bydd yr Arolygiaeth yn penderfynu p'un a geir hepgor materion o'r ymarfer cwmpasu, ar ôl ystyried y wybodaeth a roddwyd yn adroddiad cwmpasu'r ymgeisydd a'r sylwadau a roddwyd gan unrhyw ymgyngoreion.

3.19 Dylai ymgeiswyr nodi na fydd materion wedi'u hepgor o'r ymarfer cwmpasu oni bai bod yr Arolygiaeth yn cadarnhau hynny'n benodol yn y cyfarwyddyd cwmpasu.

3.20 Gall y cyfarwyddyd cwmpasu ymateb i'r wybodaeth sydd ar gael ar yr adeg honno yn unig. Felly, bydd yn rhesymol i ymgeiswyr fireinio pynciau o fewn yr ES. Dylai hyn arwain at ES ac iddo ffocws mwy penodol. I gynorthwyo â hyn, gall yr Arolygiaeth roi cyngor cyn-ymgeisio parhaus. Lle y bo'r angen, gall yr Arolygiaeth gyhoeddi diweddariadau i Gyfarwyddiadau Cwmpasu.

*Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol*

3.21 Os na ddarparwyd digon o wybodaeth gyda chais sgrinio neu gwmpasu, efallai y bydd yr Arolygiaeth yn gofyn am wybodaeth ychwanegol[8].

3.22 Pan ofynnir am wybodaeth ychwanegol, caiff y cyfnodau statudol perthnasol eu gohirio hyd nes y derbynnir y wybodaeth ychwanegol er boddhad yr Arolygiaeth.

**Y Cam Ymgynghori**

3.23 Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r cam hwn o'r broses i roi cyfle i ymgyngoreion, gan gynnwys aelodau'r cyhoedd, wneud sylwadau ar ES drafft.

3.24 Dylai ymgeiswyr ganiatáu digon o amser i ystyried ac ymateb i sylwadau a gafwyd ynglŷn â'r ES drafft, gan gynnwys cynnal arolygon a dadansoddiad ychwanegol, os bydd angen. Dylai unrhyw addasiadau neu newidiadau i'r ES o ganlyniad i'r ymgynghoriad gael eu cofnodi yn yr Adroddiad Ymgynghori.

**Y Cam Cyflwyno**

3.25 Pan fydd y DNS yn ddatblygiad EIA, rhoddir 42 diwrnod i'r Arolygiaeth benderfynu a yw'r cais yn ddilys. Yn ystod y cam dilysu, bydd yr Arolygiaeth yn gwirio digonolrwydd yr ES.

3.26 Er mwyn i gais ar gyfer DNS sy'n ddatblygiad EIA gael ei ystyried yn ddilys, mae'n rhaid iddo gynnwys ES digonol hefyd.

3.27 Pan fydd yr Arolygiaeth o'r farn y dylai'r ES gynnwys gwybodaeth ychwanegol, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd a bydd rhaid iddo ddarparu'r wybodaeth ychwanegol honno[9].

*Ailsgrinio*

3.28 Cyn cyflwyno'r cais DNS, os daw gwybodaeth newydd i'r amlwg a allai effeithio ar b'un a yw'r cynnig yn ddatblygiad EIA, neu os bydd y datblygiad arfaethedig ei hun yn newid i'r fath raddau a allai effeithio ar y cyfarwyddyd sgrinio, dylai'r ymgeisydd gyflwyno cais sgrinio newydd.

3.29 Yn yr un modd, os cyflwynir DNS ac mae'n amlwg bod gwybodaeth ddilynol sy'n berthnasol i'r penderfyniad sgrinio wedi dod i'r amlwg, bydd yr Arolygiaeth yn ail-sgrinio'r datblygiad arfaethedig cyn i'r cais gael ei ddilysu.

3.30 Os yw'r ail-sgrinio'n dangos bod y cais yn ddatblygiad EIA, bydd angen ES. O ganlyniad, ni fydd yr Arolygiaeth yn dilysu'r cais DNS hyd nes y bydd yr ymgeisydd yn darparu ES.

---

8 Rheoliadau 7(3) a 33(4) Rheoliadau 2017 ar gyfer ceisiadau sgrinio a chwmpasu, yn ôl eu trefn.
9 Rheoliad 24(1) Rheoliadau 2017.

**Y Cam Archwilio**

3.31 Bydd yr ES yn cael ei ystyried yn ofalus yn ystod archwiliad DNS. Os canfyddir nad yw'r ES yn ddigonol ar unrhyw gam o'r broses, bydd y broses yn cael ei gohirio a gofynnir am wybodaeth ychwanegol.

# Atodiad 4: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

4.1 Dylid darllen y bennod hon ar y cyd â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017, a'r holl ddeddfwriaeth a pholisïau eraill perthnasol. Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau yr ystyriwyd yr holl bolisïau, deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol a chyfredol.

## *Y Rheoliadau HRA – pwrpas ac effaith*

4.2 Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd[10] a'r Rheoliadau Cynefinoedd[11] o ran ceisiadau am DNS. Felly, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ac ymgynghori ar Asesiad Priodol (AA) mewn amgylchiadau pan fydd y cynllun neu'r prosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd neu safle Morol Ewropeaidd.

4.3 Os yw DNS, ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau presennol a rhai y gwyddys amdanynt yn y dyfodol, yn debygol o effeithio ar safle Ewropeaidd, mae'n rhaid i'r ymgeisydd roi'r gyfryw wybodaeth i'r awdurdod cymwys ag y gallai fod yn ofynnol yn rhesymol at ddibenion yr AA[12].

4.4 Mae'r wybodaeth hon fel arfer ar ffurf Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol (NSER) neu Adroddiad Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSER). Dylai matricsau HRA gael eu hatodi i NSER (matricsau sgrinio) neu LSER (y ddau fatrics) yr ymgeisydd neu gael eu cynnwys ynddynt; ond nid ydynt yn disodli NSER neu LSER yr ymgeisydd.

4.5 Pan fydd AA yn cael ei gynnal ac yn arwain at asesiad negyddol, gellir rhoi caniatâd dim ond os nad oes datrysiadau eraill amgen, os oes Rhesymau Hanfodol er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI) ar gyfer y datblygiad[13], ac os yw mesurau digolledu wedi cael eu sicrhau.

## *Safleoedd Ewropeaidd*

4.6 Mae Safleoedd o Bwys i'r Gymuned (SCIs), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ymgeisiol ac Ardaloedd Gwarchodaeth

10 Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor ar warchod cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid gwyllt (fel y'i codeiddiwyd)

11 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)

12 Rheoliad 63(2) Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 28(3) Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017

13 Os yw'r safle'n cynnal math o gynefin naturiol â blaenoriaeth neu rywogaeth â blaenoriaeth, bydd amodau ychwanegol yn berthnasol yn ymwneud â'r rhesymau a esbonnir yn y nodyn hwn. Mae mathau o gynefinoedd a rhywogaethau "â blaenoriaeth" yn nodweddion Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) penodol y mae gan aelod-wladwriaethau'r Comisiwn Ewropeaidd gyfrifoldeb arbennig amdanynt. Fe'u rhestrir yn yr Atodiadau i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac fe'u hamlygir hefyd mewn dogfennau dynodiad ACA unigol, fel arfer. Nid ydynt yn berthnasol i Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) na safleoedd Ramsar.

Arbennig (AGAau) yn cael eu hamddiffyn o dan Reoliad 8 y Rheoliadau Cynefinoedd.

4.7 Mae paragraffau 5.2.2 a 5.2.3 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 yn cymhwyso'r gweithdrefnau a ddisgrifir isod i ACAau posibl, AGAau posibl, safleoedd Ramsar a safleoedd a amlygwyd, neu sy'n ofynnol, fel mesurau digolledu ar gyfer effeithiau niweidiol ar unrhyw un o'r safleoedd uchod. At ddibenion y bennod hon, cyfeirir at yr holl safleoedd hyn fel "safleoedd Ewropeaidd".

### *Cydlynu HRA â'r broses DNS*

*Ymgysylltu'n Gynnar*

4.8 Cynghorir ymgeiswyr i ddechrau ymgynghori â CNC ar yr adeg gynharaf yn y broses cyn-ymgeisio.

4.9 Felly, dylai tystiolaeth o ganlyniad yr ymgynghoriad hwn â CNC gael ei hatodi i'r NSER neu'r LSER. Bydd hyn yn allweddol i'r broses benderfynu, oherwydd bod rhaid i'r awdurdod cymwys ymgynghori â CNC ac ystyried unrhyw gynrychiolaethau a wnaed ganddo[14].

4.10 Dylai

> Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i ymgysylltu â CNC yn gynnar yn y broses i gytuno ar wybodaeth sylfaenol, methodoleg, a thystiolaeth. Mae cynlluniau tystiolaeth, y cytunwyd arnynt rhwng CNC a'r ymgeisydd, yn ddefnyddiol i sefydlu rhaglen waith ar gyfer y cam cyn-ymgeisio.

NSER neu LSER yr ymgeisydd ddarparu'r rhesymeg a'r dystiolaeth wrth wraidd ei gasgliadau. Mae hyn yn debygol o gael ei ategu gan y wybodaeth a gyflwynir yn yr ES ar gyfer y cais DNS. Mae'n rhaid i NSER neu LSER yr ymgeisydd ddangos sut mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi cael ei chymhwyso i'r HRA a'r profion sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

4.11 Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i ddefnyddio matricsau HRA wedi'u cwblhau i amlygu a thrafod materion gydag ymgyngoreion, yn enwedig CNC, er mwyn ceisio datrys materion cyn yr archwiliad.

### *Cam 1 HRA: Sgrinio*

4.12 Dylai cwmpas yr HRA gael ei ddiffinio a'i gyfiawnhau. Dylai'r HRA gynnwys sgrinio am Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE). Os nad oes LSE wedi'u hamlygu ar gyfer yr holl safleoedd Ewropeaidd sy'n cael eu hystyried, mae'r adroddiad yn debygol o fod ar ffurf Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol (NSER) ac ni fydd angen cynnal camau 2-4 yr HRA.

---

14 Rheoliad 63(3) Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'u diwygiwyd)

## Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

4.13 Dylai gwybodaeth sgrinio Cam 1 HRA yr ymgeisydd i'w chyflwyno yn yr NSER neu'r LSER gynnwys:

- disgrifiad manwl o'r datblygiad, y prosesau, yr amseriadau, a'r dulliau gweithio a gynigir yn rhan o'r DNS;
- manylion y fethodoleg a ddefnyddiwyd i bennu pa safleoedd Ewropeaidd y dylid eu cynnwys yn yr asesiad, yn ogystal â diffiniad o gwmpas yr asesiad a chyfiawnhad ohono;
- cynllun a disgrifiad o'r safle(oedd) Ewropeaidd y gellid effeithio arnynt o bosibl, gan gynnwys disgrifiad o'r holl nodweddion cymwys (byddai'n ddefnyddiol cynnwys copi o daflen ddata'r safle);
- arfarniad o'r effeithiau posibl o ganlyniad i adeiladu a gweithredu'r prosiect (e.e. sŵn) a'r effaith arwyddocaol debygol ar safle(oedd) Ewropeaidd a nodweddion cymwys (e.e. aflonyddu ar rywogaethau adar);
- amlinelliad a dehongliad o'r data sylfaenol a gasglwyd i lywio'r canfyddiadau;
- arfarniad o effeithiau unrhyw gynlluniau neu brosiectau eraill a allai, ar y cyd â'r datblygiad arfaethedig, gael effaith arwyddocaol ar y safle(oedd) Ewropeaidd. Dylai cwmpas yr arfarniad hwnnw fod yn ddiffiniedig a chael ei gytuno gyda'r awdurdodau lleol a CNC;
- gwerthusiad o'r posibilrwydd y gallai'r cynllun olygu bod angen cydsyniadau eraill sy'n gofyn am ystyried LSE gan awdurdodau cymwys gwahanol (heblaw am gydsyniadau eilaidd sy'n ffurfio rhan o'r cais DNS);
- datganiad sy'n amlygu (gyda rhesymau) p'un a ystyrir bod effeithiau arwyddocaol ar safleoedd Ewropeaidd mewn Gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) yn debygol; a
- thystiolaeth o gytundeb rhwng yr ymgeisydd a CNC ar gwmpas, methodoleg, dehongliad, a chasgliadau'r asesiad sgrinio (fel copïau o ohebiaeth, Cynlluniau Tystiolaeth, neu Ddatganiadau Tir Cyffredin).

4.14 Yn ystod Cam 1, o ran pob safle Ewropeaidd a nodwedd gymwys, bydd angen i'r ymgeisydd ddod i'r naill neu'r llall o'r ddau gasgliad canlynol o'r wybodaeth sylfaenol a'r ymatebion ymgynghori:

- Nid oes Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) ar yr holl safle(oedd) Ewropeaidd a nodweddion cymwys a ystyriwyd, naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, ac felly nid oes angen asesiad ychwanegol (gweler yr adran ddiweddarach, sef 'NSER'), NEU
- Mae Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) yn bodoli ar unrhyw un o'r safle(oedd) Ewropeaidd a'r nodweddion cymwys a ystyriwyd, naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, ac felly mae angen i'r awdurdod cymwys gynnal AA (gweler yr adran ddiweddarach, sef 'HRA Cam 2: AA').

4.15 Yn ystod y cam sgrinio HRA, ni all awdurdodau cymwys ystyried unrhyw fesurau osgoi neu leihau integredig neu ychwanegol wrth ystyried p'un a yw'r cynllun neu'r prosiect yn debygol o gael effaith niweidiol ar safle Ewropeaidd.

4.16 Mae'n rhaid i'r cam sgrinio gael ei gynnal mewn ffordd ragofalus heb ystyried unrhyw fesurau osgoi neu leihau integredig neu ychwanegol. Pan na ellir eithrio tebygolrwydd effeithiau arwyddocaol, mae'n rhaid i'r awdurdod cymwys gynnal AA, ar sail gwybodaeth wrthrychol, i sefydlu p'un a fydd y cynllun neu'r prosiect

yn effeithio ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd, sy'n gallu cynnwys, yn ystod y cam hwnnw, ystyried effeithiolrwydd y mesur osgoi neu leihau arfaethedig.

*Effaith/effeithiau ar y cyd ar safle(oedd) Ewropeaidd*

4.17 Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddod i gasgliad ynglŷn â ph'un a yw'r prosiect, naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd.

4.18 Mae'n bosibl y bydd rhai prosiectau'n annhebygol o arwain at effeithiau arwyddocaol yn unigol, ond gallai'r effeithiau ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill fod yn arwyddocaol. Felly, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth yn yr NSER neu'r LSER i ddangos ei fod wedi ystyried yr effeithiau, yn unigol ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill.

*Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol (NSER)*

4.19 Yn achos *Waddenzee*, roedd Llys Cyfiawnder Ewrop (ECJ) o'r farn y dylai effeithiau'r prosiect gael *'eu hamlygu yng ngoleuni'r wybodaeth wyddonol orau yn y maes'*[15]. Dylai canfyddiadau'r asesiad gael eu gwerthuso'n barhaus yn erbyn trothwyon LSE.

4.20 Os yw'r awdurdod cymwys yn penderfynu, yn ystod y broses, 'nad oes effaith arwyddocaol (yn unigol neu ar y cyd)' ac nad oes amheuaeth wyddonol resymol yn parhau, gellir cwblhau'r asesiad. Yna, dylai'r ymgeisydd grynhoi'r canlyniadau mewn NSER.

4.21 Wrth ystyried casgliad yr NSER nad oes LSE yn bodoli sy'n golygu bod angen AA, bydd rhaid i'r Arolygydd ystyried y penderfyniad yn achos *Waddenzee*, lle'r oedd yr ECJ o'r farn y dylai *'awdurdodau cenedlaethol cymwys, wrth ystyried casgliadau'r asesiad priodol.….awdurdodi gweithgarwch o'r fath dim ond os ydynt wedi sicrhau na fydd yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle hwnnw. Dyna'r achos pan na fydd amheuaeth wyddonol resymol yn parhau ynglŷn ag absenoldeb y cyfryw effeithiau*[16]*'*.

4.22 Nid oes fformat rhagnodedig ar gyfer yr NSER nac ar gyfer adrodd ar ganlyniadau'r cam sgrinio. Mae'n rhaid i'r NSER fod yn eglur, cael ei ategu gan wybodaeth ddigonol, a darparu rhesymau argyhoeddiadol ynglŷn â pham mae'r ymgeisydd wedi penderfynu nad oes LSE ac na fydd angen AA.

*Canlyniadau sgrinio*

4.23 Os yw'r ymgeisydd wedi dod i'r casgliad bod y prosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw safle Ewropeaidd, yn unigol neu ar y cyd â phrosiectau

---

15 Paragraff 54 Waddenzee (gweler troednodyn 5 am fanylion)
16 Paragraff 59 dyfarniad yr ECJ yn Waddenzee (gweler troednodyn 5 am fanylion)

eraill, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth yn unol â Cham 2 HRA: AA y broses.

4.24 Os yw Cam 1 yn amlygu LSE ar gyfer unrhyw un o'r safleoedd Ewropeaidd a ystyriwyd, bydd angen cynnal asesiad o oblygiadau'r prosiect i amcanion cadwraeth y safle(oedd)[17]. Bydd hyn ar ffurf LSER a dylai gynnwys gwybodaeth ddigonol ar gyfer yr AA.

4.25 Ynghyd â'i wybodaeth Cam 2 HRA: AA, dylai'r ymgeisydd hefyd ddatgan yn eglur pa safle(oedd) Ewropeaidd a nodweddion cymwys sy'n cael eu dwyn ymlaen o Gam 1 HRA: Sgrinio, a pha safle(oedd) Ewropeaidd a nodweddion cymwys sydd wedi cael eu hepgor o asesiad ychwanegol.

4.26 Dylai'r wybodaeth Cam 2 HRA: AA gael ei chyflwyno yn LSER yr ymgeisydd, a dylai gynnwys:

- tystiolaeth ynglŷn ag effeithiau'r prosiect ar gyfanrwydd safleoedd a warchodir;
- disgrifiad o unrhyw fesurau lliniaru a gynigir sy'n osgoi neu'n lleihau pob effaith, ac unrhyw effeithiau gweddilliol sy'n parhau;
- atodlen sy'n dangos amseriad mesurau lliniaru mewn perthynas â chynnydd y datblygiad;
- croesgyfeiriadau i'r gofynion DNS perthnasol ac unrhyw ddulliau eraill a gynigir i sicrhau mesurau lliniaru, ac amlygu unrhyw ffactorau a allai effeithio ar sicrwydd eu gweithredu;
- datganiad ynglŷn â pha effeithiau gweddilliol (os oes rhai) sy'n cynrychioli effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd, naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, ac felly y mae angen eu cynnwys yn yr AA; a
- thystiolaeth i ddangos bod yr ymgeisydd wedi ymgynghori'n llawn â CNC ac wedi rhoi ystyriaeth i sylwadau a dderbyniwyd ganddo yn ystod yr ymgynghoriad cyn-ymgeisio.

4.27 Disgwylir i LSER yr ymgeisydd hefyd gynnwys y matricsau cyfanrwydd ar gyfer yr holl safleoedd Ewropeaidd sy'n cael eu dwyn ymlaen i Gam 2 HRA.

*Asesiad Priodol Negyddol*

4.28 Oni bai bod LSER yr ymgeisydd yn dod i'r casgliad nad oes amheuaeth wyddonol resymol yn parhau *'wedi'i hamlygu yng ngoleuni'r wybodaeth wyddonol orau yn y maes'*[18]*;* ac ni fydd y prosiect yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw safle Ewropeaidd, yn unigol neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, bydd angen i asesiad yr ymgeisydd symud ymlaen i Gamau 3 a 4 y broses HRA.

17 Rheoliad 61(5) Rheoliadau Cynefinoedd 2010
18 Paragraff 54 Waddenzee

### *Camau 3 a 4 HRA: Asesu Dewisiadau Amgen ac Ystyried IROPI*

4.29 Os yw Cam 2 yn dod i'r casgliad y bydd y prosiect yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle(oedd), neu os yw'n amhendant; bydd angen ystyried dewisiadau amgen, mesurau digolledu a ph'un a oes modd cyfiawnhau'r prosiect trwy IROPI. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r LSER hefyd.

4.30 Dylai datrysiadau amgen gael eu hasesu, a dylai manylion ynglŷn â sut yr amlygwyd ac yr ystyriwyd y rhain gael eu darparu yn LSER yr ymgeisydd. Bydd y wybodaeth a roddir yn asesiad yr ymgeisydd yn llywio asesiad yr awdurdod cymwys.

4.31 Lle y gellir dangos nad oes datrysiadau amgen i'r prosiect a fyddai'n cael llai o effaith neu'n osgoi effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle(oedd) Ewropeaidd, mae'n bosibl y gellid cynnal y prosiect o hyd os yw'r awdurdod cymwys yn fodlon bod rhaid i'r cynllun gael ei gynnal oherwydd IROPI. Lle yr effeithir ar gynefinoedd naturiol neu rywogaethau â blaenoriaeth, dylai'r cyfiawnhad IROPI gael ei ddarparu yn yr LSER ac mae'n rhaid iddo ymwneud â naill ai:

- iechyd pobl, diogelwch cyhoeddus neu ganlyniadau buddiol o bwys pennaf i'r amgylchedd; neu
- roi ystyriaeth briodol i unrhyw farn gan y Comisiwn Ewropeaidd, ac unrhyw resymau hanfodol eraill er budd cyhoeddus tra phwysig.

### *Cyflwyno ac archwilio*

4.32 Ar ôl cyflwyno, bydd gwiriadau dilysrwydd yn weithdrefnol yn bennaf, ond yn ystod yr adeg hon, bydd yr Arolygiaeth hefyd yn gwirio bod digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno i allu penderfynu ar y cais.

4.33 Os yw casgliadau'r ymgeisydd wedi cael eu herio yn ystod yr archwiliad, bydd yr adroddiad yn cynnwys diwygiadau i unrhyw fatricsau HRA a gyflwynwyd. Bydd yr adroddiad, ac unrhyw ymatebion ymgynghori a deunydd archwiliad perthynol, yn ffurfio rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer adroddiad yr Arolygydd a'i argymhelliad i Weinidogion Cymru.

### *Adroddiad yr Arolygydd*

4.34 Bydd adroddiad yr Arolygydd yn mynd i'r afael ag LSE y prosiect ar unrhyw safle(oedd) Ewropeaidd a nodweddion cymwys ac, os yw'n briodol, bydd hefyd yn ystyried p'un a fydd y prosiect yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle(oedd) Ewropeaidd. Lle y bo'r angen, bydd adroddiad yr Arolygydd yn asesu tystiolaeth o'r archwiliad sy'n ymwneud â'r achos o blaid dim dewisiadau amgen, IROPI a mesurau digolledu. Yna, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried holl dystiolaeth yr archwiliad cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais DNS.

# Atodiad 5: Adroddiadau ar yr Effaith Leol

5.1 Mae'r atodiad hwn wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer ACLlau neu Gynghorau Cymuned i'w cynorthwyo â ffurf a chynnwys Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR).

### *Trosolwg o LIRs a'r Broses DNS*

5.2 Mae'n ofyniad ffurfiol o'r broses DNS fod rhaid i unrhyw ACLl perthnasol gyflwyno LIR, gan roi manylion effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar ardal yr awdurdod.

5.3 Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys darpariaeth i ACLlau neu Gynghorau Cymuned eraill gyflwyno LIR Gwirfoddol.

### *Beth yw'r broses ar gyfer cynhyrchu LIR?*

5.4 Adroddiad ysgrifenedig yw'r LIR sy'n manylu ar effaith debygol y datblygiad arfaethedig ar unrhyw ran o ardal yr ACLl, yn seiliedig ar y wybodaeth leol sydd ganddo eisoes a thystiolaeth gadarn o faterion lleol, a dylai restru'r effeithiau a'u pwysigrwydd perthynol.

5.5 Bydd yr Arolygiaeth yn rhoi gwybod i'r ACLlau perthnasol pan dderbynnir cais. Pan roddir gwybod iddynt, bydd gan ACLlau 5 wythnos i gyflwyno eu LIR.

5.6 Os nad yw LIR yn bodloni'r gofynion statudol, bydd yr Arolygiaeth yn rhoi gwybod i'r ACLl nad yw'r LIR wedi'i gwblhau. Mae'n rhaid i wybodaeth ychwanegol gael ei chyflwyno cyn gynted â phosibl.

5.7 Wrth wneud penderfyniad ar gais DNS, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw LIRs a gyflwynwyd, gan gynnwys LIRs gwirfoddol a gyflwynwyd yn unol â'r Gorchymyn.

### *Yr Ymagwedd Gyffredinol at y LIR*

5.8 Bwriedir i'r LIR roi safbwynt gwrthrychol, ffeithiol ynglŷn ag effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar yr ardal dan sylw. Dylai'r effeithiau gael eu cyflwyno yn nhermau effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol.

5.9 Mae'r adroddiad yn wahanol i unrhyw gynrychiolaeth y gallai awdurdod lleol ei chyflwyno ynglŷn â rhinweddau cais. Caiff Awdurdod Lleol neu Gynghorydd unigol gyflwyno cynrychiolaeth ar wahân ynglŷn â rhinweddau'r cais.

5.10 Caiff y LIR dynnu sylw at faterion a gyflwynwyd i'r ACLl gan bartïon â buddiant neu grwpiau cymunedol, ond dim ond os yw'r ACLl o'r farn bod y materion hynny'n ystyriaethau cynllunio a ddylai gael eu cynnwys mewn LIR.

5.11 Wrth gynhyrchu LIR, nid oes rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r gymuned.

### *Graddfeydd Amser ar gyfer cynhyrchu'r LIR*

5.12 Rhoddir 5 wythnos i ACLlau gyflwyno LIR ar ôl cael gwybod am DNS dilys. Mae gan yr Arolygiaeth rym i amrywio'r cyfnod hwn, ond gwneir hynny mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.

5.13 Yn ymarferol, dylai ACLlau fod yn ymwybodol o'r cais gryn amser cyn iddo gael ei gyflwyno.

### *LIR a Ffïoedd*

5.14 Os na fydd ACLl yn cyflwyno'r LIR o fewn y cyfnod a bennwyd gan yr Arolygiaeth, ni fydd y ffi lawn yn cael ei throsglwyddo i'r ACLl.

5.15 Os bydd y terfyn amser yn cael ei fethu hyd at 14 diwrnod, bydd yr ACLl yn cael hanner y ffi. Ni fydd yr ACLl yn cael unrhyw ran o'r ffi os darperir y LIR fwy na 14 diwrnod ar ôl y terfyn amser. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r LIR gael ei ddarparu o hyd.

5.16 I sicrhau ei fod yn cael y taliad llawn am y gwaith sy'n ofynnol, dylai ACLl sicrhau ei fod yn dechrau paratoi'r LIR mewn da bryd i ganiatáu iddo fodloni'r terfyn amser.

### *Cynnwys y LIR*

5.17 Mae'n rhaid i LIR gorfodol gynnwys y canlynol o leiaf:

| | |
|---|---|
| • Effaith debygol y datblygiad DNS ar yr ardal, | (yn y Ddeddf) |
| • Hanes cynllunio'r safle,<br>• Dynodiadau lleol sy'n berthnasol i'r safle / yr amgylchoedd,<br>• Effaith debygol unrhyw gais mewn perthynas â rhoi cydsyniad eilaidd,<br>• Unrhyw bolisïau cynllunio lleol, canllawiau neu ddogfennau eraill perthnasol,<br>• Amodau neu rwymedigaethau drafft y mae'r ACLl o'r farn eu bod yn angenrheidiol i liniaru unrhyw effeithiau tebygol y datblygiad,<br>• Tystiolaeth o'r cyhoeddusrwydd a gynhaliwyd gan yr ACLl yn unol â'r Gorchymyn Gweithdrefn, h.y. copi o'r Hysbysiad Safle, ffotograff o'r Hysbysiad Safle yn cael ei arddangos a map sy'n dangos lleoliad yr Hysbysiad Safle. | (yn y Gorchymyn Gweithdrefn) |

5.18 Mae'n rhaid i LIR Gwirfoddol gynnwys:

- Effaith debygol y datblygiad ar yr ardal,
- Disgrifiad o effaith debygol unrhyw gais mewn perthynas â rhoi cydsyniad eilaidd,
- Polisïau cynllunio, canllawiau a dogfennau eraill sy'n gymwys yn lleol sy'n berthnasol i'r cais,

- Amodau neu rwymedigaethau drafft y mae'r ACLl neu'r Cyngor Cymuned o'r farn eu bod yn angenrheidiol i liniaru unrhyw effeithiau tebygol y datblygiad.

5.19 Dylai'r adroddiad gynnwys datganiad ynglŷn ag effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol, ond ni ddylai gynnwys ymarfer cydbwyso rhwng effeithiau cadarnhaol a negyddol. Caiff yr ACLl gyflwyno ei ymarfer cydbwyso ei hun fel cynrychiolaeth ysgrifenedig, ar wahân i'r LIR.

5.20 Ni ddylai'r LIR ailadrodd deunydd sydd wedi'i gynnwys mewn dogfennau cais neu Ddatganiadau Tir Cyffredin ac ati, ond caiff groesgyfeirio i'r dogfennau hynny.

5.21 Ni fwriedir i'r canllawiau hyn gynnwys popeth na bod yn rhagnodol. Dylai ACLlau ymdrin ag unrhyw bynciau sydd, yn eu barn nhw, yn berthnasol i effaith y datblygiad arfaethedig ar eu hardal.

**Effeithiau'r Datblygiad a Chydsyniadau Eilaidd**

5.22 Mae'n bwysig i'r LIR neu'r LIR Gwirfoddol gynnwys crynodeb o ragfynegiadau cadarnhaol a negyddol yr ACLl ynglŷn ag effeithiau ar ei ardal.

5.23 Byddai'n fuddiol petai'r ACLl yn gallu rhoi ei farn am bwysigrwydd perthynol gwahanol faterion cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd, ac effaith y cynllun arnynt.

5.24 Lle y bo'n berthnasol, dylid egluro'r gwahaniaeth rhwng effeithiau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad DNS a'r rhai hynny sy'n ymwneud â phob Cydsyniad Eilaidd.

**Amodau a Rhwymedigaethau**

5.25 Disgwylir y bydd yr ymgeisydd wedi ymgysylltu ag ACLlau ynglŷn â'r materion hyn yn gynnar yn ystod y broses, ac wedi ceisio dod i gytundeb â'r ACLl cyn cyflwyno, lle bynnag y bo'n bosibl.

5.26 Pan fydd yr ymgeisydd yn cynnig mesurau lliniaru neu ddigolledu penodol, dylai'r rhain gael eu hamlygu a dylid gwneud sylwadau arnynt. Dylai awdurdodau lleol sôn amdanynt yn benodol. Mae'r un peth yn wir am amodau neu rwymedigaethau y mae'r ACLl o'r farn y dylent gael eu cynnwys ond nad ydynt wedi cael eu cynnig gan yr ymgeisydd.

5.27 Caiff yr ACLl gynnig yr amodau a'r rhwymedigaethau ar sail 'heb ragfarnu'. Mae rhyddid i'r ACLl egluro mewn cynrychiolaeth ar wahân p'un a yw'n ystyried y dylai caniatâd gael ei roi neu ei wrthod.

**Cyhoeddusrwydd**

5.28 Dylai ACLlau nodi eu cylch gorchwyl ar gyfer y LIR yn eglur, h.y. cynnwys adran sy'n amlinellu strwythur a diben y ddogfen ac sy'n amlygu unrhyw gyfyngiad ar y wybodaeth a gynhwysir ynddi.

### *Y LIR a Dogfennau eraill y Cais DNS*

5.29 Mae'n bwysig osgoi ailadrodd deunydd a allai fod wedi'i gynnwys yn rhywle arall yn y dogfennau cais.

5.30 Mae'n bosibl y bydd Cynghorau Cymuned, sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd wedi gwneud cynrychiolaethau i'r awdurdod lleol neu'n uniongyrchol i'r ymgeisydd ynglŷn â'r cynllun. Gallai'r LIR gynnwys cyfeiriad at y cynrychiolaethau hyn, ond dim ond lle y bônt yn berthnasol i effaith leol benodol y mae'r ACLl ei hun eisiau ei hamlygu.

5.31 Gallai'r LIR hefyd ddymuno cyfeirio at yr Adroddiad Ymgynghori, gan gynnwys unrhyw effeithiau canlyniadol sy'n codi o unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun cyn-ymgeisio.

# Atodiad 6: Rhwymedigaethau Cynllunio

6.1 Mae cyngor ar ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio ar gael yng Nghylchlythyr 13/97. Dylid hefyd cyfeirio at Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 a ph'un a yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi mabwysiadu Atodlen Codi Tâl yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL).

6.2 Yn unol â'r rheoliadau DNS, mae'n rhaid i gais gynnwys datganiad ysgrifenedig ynglŷn â statws trafodaethau rhwng yr ymgeisydd a'r ACLl ynglŷn â rhwymedigaethau cynllunio. Ni fydd cais yn cael ei ddilysu heb ddatganiad o'r fath.

6.3 Bydd angen i unrhyw drafodaethau ynglŷn â rhwymedigaethau cynllunio ddechrau ymhell cyn i unrhyw gais gael ei gyflwyno.

6.4 Yn rhan o'r LIR, dylai'r ACLl gynnwys unrhyw rwymedigaethau drafft yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i liniaru effaith y datblygiad arfaethedig.

6.5 Dylai Cytundeb Adran 106 wedi'i gwblhau gael ei roi i'r Arolygiaeth erbyn wythnos 15 y broses archwilio DNS. Gallai'r Arolygydd gytuno i dderbyn cytundeb wedi'i gwblhau ar ddiwrnod agoriadol y Gwrandawiad neu'r Ymchwiliad (os bydd digwyddiad o'r fath yn cael ei gynnal).

6.6 Ni fydd oedi o ran cyhoeddi adroddiad argymhelliad i Weinidogion Cymru (neu'r penderfyniad yn achos llinellau trydan uwchben) os na chyflwynwyd rhwymedigaeth gynllunio wedi'i chwblhau.

# Atodiad 7: Yr Adroddiad Ymgynghori

7.1 Mae'n rhaid cyflwyno Adroddiad Ymgynghori cyn-ymgeisio gyda chais DNS sy'n rhoi:

- Disgrifiad o'r ymgynghoriad statudol, y cyhoeddusrwydd, y terfynau amser a osodwyd, a'r gweithgareddau sy'n ofynnol o dan adran 61Z Deddf 1990, gan gynnwys:
  - copïau o'r holl hysbysiadau a chyhoeddiadau a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymgynghoriad;
  - datganiadau bod yr hysbysiadau a'r gofynion cyhoeddi perthnasol yn cydymffurfio â'r Ddeddf a'r Gorchymyn;
  - cyfeiriadau'r rhai y rhoddwyd gwybod iddynt am y cais arfaethedig;

- crynodeb o'r holl faterion, gan gynnwys cadarnhad ynglŷn â ph'un a yw'r materion a godwyd wedi derbyn sylw ac, os felly, sut; a

- manylion yr holl ymatebion a dderbyniwyd gan yr unigolion yr ymgynghorwyd â nhw, gan gynnwys copïau o ymatebion gan ymgyngoreion arbenigol; a'r ystyriaeth a roddwyd i'r rhain.

7.2 Dylai ymgeiswyr geisio paratoi adroddiad cryno ac iddo ffocws penodol. Argymhellir bod ymgeiswyr yn strwythuro eu Hadroddiad Ymgynghori fel a ganlyn:

Pennod 1: Y cyd-destun
Pennod 2: Ymgyngoreion statudol
Pennod 3: Cyhoeddusrwydd statudol
Pennod 4: Nifer yr ymatebion, yn ôl math
Pennod 5: Ymatebion gan ymgyngoreion statudol a chamau gweithredu canlyniadol
Pennod 6: Y prif faterion
Atodiad 1: Datganiadau cydymffurfio â'r Ddeddf/Gorchymyn
Atodiad 2: Copïau o hysbysiadau, cyhoeddusrwydd a llythyrau
Atodiad 3: Rhestr o gyfeiriadau'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw
Atodiad 4: Copïau gwreiddiol o ymatebion gan ymgyngoreion statudol

### *Ymgyngoreion statudol*

7.3 Dylai'r adroddiad gynnwys rhestr lawn o ymgyngoreion statudol. Dylai nodi pam mae pob corff yr ymgynghorwyd ag ef yn ymgynghorai statudol, a sut yr ymgynghorwyd ag ef. Os ymgynghorwyd ag ymgyngoreion statudol sawl gwaith, dylid esbonio hyn.

7.4 Dylai'r adroddiad ddangos tystiolaeth o sut yr amlygwyd ymgyngoreion cymunedol, trwy gynnwys map sy'n dangos y safle a ffiniau'r wardiau a'r Cynghorau Cymuned perthnasol.

### *Cyhoeddusrwydd statudol*

7.5 Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig yn y fath fodd yr ystyrir yn rhesymol ei fod yn debygol o'i ddwyn i sylw mwyafrif y bobl sy'n berchen ar eiddo neu'n meddiannu eiddo yng nghyffiniau'r tir. Mae hyn yn cynnwys:

- arddangos o leiaf un hysbysiad safle,
- rhoi hysbysiad ysgrifenedig i berchenogion neu feddianwyr tir sy'n cyd-ffinio â'r safle,
- cyhoeddi hysbysiad yn y papur newydd lleol, a
- chyhoeddi'r holl ddogfennau ar wefan am 42 diwrnod o leiaf.

7.6 Dylai'r Adroddiad Ymgynghori ddarparu tystiolaeth o'r cyhoeddusrwydd hwn. Dylai:

- Amlygu lleoliad(au) hysbysiadau safle a'r dyddiadau pryd y cawsant eu harddangos a'u tynnu i lawr,
- Cynnwys map sy'n dangos yr eiddo cydffiniol (fel data pwynt) y rhoddwyd hysbysiadau ysgrifenedig iddynt,
- Nodi'r dyddiad pryd y cyhoeddwyd yr hysbysiad yn y papur newydd lleol, a
- Chadarnhau'r cyfnod o fewn pryd yr oedd yr hysbysiadau'n caniatáu i ymatebion gael eu cyflwyno.

7.7 Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiadau sy'n cadarnhau bod o leiaf un hysbysiad safle wedi cael ei arddangos ar y safle neu'n agos iddo, a bod yr holl ddogfennau wedi cael eu cyhoeddi ar wefan am 42 diwrnod o leiaf.

7.8 Mae'n rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys, fel atodiadau:

- Y ddau ddatganiad
- Copïau o'r holl gyhoeddusrwydd a hysbysiadau fel yr oeddent wedi ymddangos yn wreiddiol (gan gynnwys cadarnhad o'r papur newydd a'r dyddiad pryd y cyhoeddwyd yr hysbysiad cyhoeddus), a
- Rhestr o gyfeiriadau pawb yr ymgynghorwyd â nhw (gan gynnwys ymgyngoreion statudol).

### *Nifer yr ymatebion, yn ôl math*

7.9 Dylai'r adroddiad feintioli cyfanswm nifer yr ymatebion a dderbyniwyd. Dylai grynhoi cyfanswm nifer yr ymatebion yn ôl:

- Categori'r ymatebwyr
- P'un a yw'r ymateb yn wrthwynebiad neu'n gefnogaeth, a'r
- Prif fater perthynol.

7.10 Dylai'r adroddiad nodi nifer a natur unrhyw ymatebion nad oeddent wedi'u gwneud yn briodol, ym marn yr ymgeisydd.

7.11 Os derbyniwyd unrhyw ymatebion ynglŷn â materion a oedd yn ymwneud â chydsyniad eilaidd yn unig, dylai'r adroddiad nodi sawl un a dderbyniwyd, pa gydsyniad yr oeddent yn ymwneud ag ef, a phwy a'u gwnaeth.

7.12 Os yw ymatebwr sy'n gwrthwynebu cydsyniad eilaidd wedi nodi ei fod eisiau arfer hawl statudol i gael ei glywed, dylid ei enwi.

### *Y prif faterion*

7.13 Dylai'r adroddiad grynhoi'r prif faterion a godwyd yn yr ymatebion a dderbyniwyd, a sut yr aethpwyd i'r afael â'r ymatebion hyn yn y cais cynllunio a gyflwynwyd.

7.14 Dylid amlygu'r prif faterion trwy ddadansoddi'r holl ymatebion, boed hynny gan ymgyngoreion statudol, perchenogion/meddianwyr cyfagos neu eraill.

7.15 Rhoddir isod dempled ar gyfer trefnu'r prif faterion yn grwpiau.

| **Y prif fater** *(Rhowch deitl byr sy'n crynhoi'r materion allweddol a godwyd yn yr ymatebion)* | |
|---|---|
| **Dogfennau cais perthnasol:** | *Rhestrwch y brif ddogfen/y prif ddogfennau y mae'r prif fater hwn yn ymwneud â hi/nhw.* |
| **Ymatebwyr:** | *Rhestrwch enwau llawn y sefydliadau / yr unigolion a gyflwynodd yr ymateb, ynghyd â chyfeirnod unigryw ar gyfer pob ymateb.* |
| **Crynodeb yr ymgeisydd o'r ymatebion:** | *Crynhowch yr ymatebion a dderbyniwyd. Rhowch ddisgrifiad byr o'r effeithiau posibl a godwyd neu elfennau penodol y datblygiad sy'n cael eu gwrthwynebu. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid trefnu ymatebion yn grwpiau i osgoi ailadrodd.* |
| **Ymateb yr ymgeisydd, gan gynnwys rhesymau:** | *Amlinellwch ymateb rhesymedig yr ymgeisydd i'r materion a godwyd (wedi'i fynegi mewn llai na 1,000 o eiriau fesul prif fater, yn gyffredinol). Esboniwch y rheswm dros ddiwygio neu beidio â diwygio'r cynnig. Pan fydd newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnig, nodwch natur y rhain.* |

7.16 Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i bob ymateb. Gallai ymateb rhesymedig i wrthwynebiad arwyddocaol helpu i leihau'r angen i ddarparu cynrychiolaethau ysgrifenedig yn ystod yr archwiliad.

7.17 Gall ymatebion sy'n ymwneud â'r un mater (neu fater cysylltiedig), neu sy'n ymwneud â rhan benodol o safle, gael eu casglu at ei gilydd yn un prif fater.

7.18 Dylai materion sy'n ymwneud â chydsyniad eilaidd gael eu hamlygu mewn atodlen neu atodlenni ar wahân.

### *Ymatebion gan ymgyngoreion statudol a chamau gweithredu canlyniadol*

7.19 Mae’n ofynnol i’r ymgeisydd gynnwys copïau o ymatebion gan ymgyngoreion arbenigol ac esbonio sut mae wedi ystyried yr ymatebion hyn.

7.20 Argymhellir bod yr adroddiad yn cynnwys atodlen sy’n darparu’r wybodaeth ganlynol:

- Enw a chyfeirnod yr ymgynghorai
- Cyfeirnod yr ymateb [os yw’r ymgynghorai wedi codi nifer o faterion gwahanol, neu wedi cyflwyno mwy nag un ymateb, rhowch gyfeirnod unigryw i bob rhan]
- Crynodeb o’r ymateb
- Y prif fater(ion)
- Y cydsyniad perthnasol y mae’r ymateb yn ymwneud ag ef
- Camau gweithredu canlyniadol yr ymgeisydd

7.21 Mae’r Arolygiaeth yn argymell bod yr atodlen yn crynhoi’r ymatebion gan yr holl ymgyngoreion statudol, yn hytrach nag ymgyngoreion arbenigol yn unig.

7.22 Dylai copïau wedi’u sganio o’r ymatebion gwreiddiol gael eu hatodi i’r adroddiad. Argymhellir bod ymatebion yr holl ymgyngoreion statudol yn cael eu cynnwys, yn hytrach nag ymgyngoreion arbenigol yn unig.

# Atodiad 8: Adborth a Chwynion

### *Sut rydym yn ymdrin â chwynion*

8.1 Nid oes hawl apelio yn erbyn penderfyniad Gweinidogion Cymru i roi neu wrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer DNS.

8.2 Ni all yr Arolygiaeth newid penderfyniad nac adroddiad yr Arolygydd. Fodd bynnag, mae'r Arolygiaeth yn gwneud ei gorau i sicrhau bod pawb sy'n defnyddio'r broses ymgeisio DNS yn fodlon ar y gwasanaeth a gânt.

8.3 Dylai cwynion sy'n ymwneud yn benodol â phenderfyniad Gweinidogion Cymru gael eu cyfeirio'n uniongyrchol at Gyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru.

8.4 Mae pob cwyn neu gais am eglurhad yn cael eu trin gan y tîm Ansawdd. Byddant yn ymateb cyn gynted ag y bo'n bosibl mewn iaith glir a syml, gan osgoi jargon a thermau cyfreithiol cymhleth.

8.5 Gellir cysylltu â'r Arolygiaeth trwy e-bost, trwy'r post arferol neu dros y ffôn. Bydd pob gohebiaeth yn cael ei chydnabod, a rhoddir graddfa amser ar gyfer ymateb. Mae'r Arolygiaeth yn ceisio ymateb i 80% o'r holl ohebiaeth o fewn 20 niwrnod gwaith.

### *Sut rydym yn ymchwilio i gwynion*

8.6 Nid oes terfyn amser ar gyfer gwneud cwynion, ond disgwylir iddynt gael eu gwneud yn brydlon pan ddaw'r rheswm dros y gŵyn yn amlwg.

8.7 Er bod yr Arolygiaeth yn gallu ymdrin â chwynion unrhyw bryd, mae'n bosibl y bydd ein gallu i wneud hynny'n drylwyr yn gyfyngedig os yw'r ffeil wedi cael ei dinistrio, a bydd cof y bobl dan sylw yn pylu dros amser, yn naturiol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n debygol y bydd angen i achwynwyr anfon dogfennau atom i ategu eu cwyn.

8.8 Mae'r tîm Ansawdd yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion ynghylch gweithdrefn, penderfyniadau gweinyddol neu ymddygiad Arolygydd. Ymchwilir i bob cwyn yn ddiduedd ac mor drylwyr â phosibl.

8.9 Weithiau, mae cwynion yn codi o ganlyniad i gamddealltwriaeth ynglŷn â sut mae'r system DNS yn gweithio. Pan fydd hyn yn digwydd, ceisiwn esbonio pethau mor eglur â phosibl.

8.10 Mae'n bwysig iawn deall na ellir ailagor cais i ailystyried ei rinweddau neu ychwanegu at yr hyn y mae'r Arolygydd wedi ei ddweud yn ei adroddiad neu'r hyn y mae Gweinidogion Cymru wedi ei ddweud yn eu penderfyniad. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud ein gorau i egluro pethau, os yw hynny'n angenrheidiol ac yn bosibl.

8.11 Weithiau, ni fyddwn yn gallu ymdrin â chŵyn benodol. Os felly, bydd yr Arolygiaeth yn esbonio hyn ac yn awgrymu pwy allai ymdrin â'r gŵyn.

8.12 Yn yr un modd, ni all yr Arolygiaeth ddatrys unrhyw gwynion a allai fod gan bobl gyda'r ACLl ynglŷn â'r system gynllunio neu weithredu caniatâd cynllunio.

8.13 Os yw'r achwynydd o'r farn nad yw'r ymateb wedi ymdrin â'i bryderon yn ddigonol, mae polisi'r Arolygiaeth yn datgan y bydd uwch reolwr yn adolygu ei gŵyn ac yn anfon ymateb terfynol.

### *Pwy sy'n gyfrifol am fonitro datblygiad?*

8.14 Os bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi caniatâd cynllunio i gais DNS, yr ACLl fydd yn llwyr gyfrifol am fonitro gweithrediad y caniatâd a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cynlluniau ac unrhyw amodau.

8.15 Os yw'r awdurdod cynllunio lleol o'r farn nad yw'r datblygiad yn cydymffurfio â'r caniatâd, mae ganddo'r grym i gymryd camau gorfodi.

8.16 Mae cwynion ac ymatebion i'r Arolygiaeth yn un ffordd o helpu i wella'r system DNS.

8.17 Os gwnaed camgymeriad, bydd yr Arolygiaeth yn ysgrifennu i ymddiheuro ac esbonio beth sydd wedi digwydd. Os gellir dysgu gwersi o'r camgymeriad, bydd newidiadau'n cael eu gwneud, fel y gellir osgoi gwallau tebyg yn y dyfodol.

8.18 Gallai camau unioni gynnwys:

- ymddiheuro, esbonio, a chydnabod cyfrifoldeb;
- camau unioni a allai gynnwys: adolygu safonau gwasanaeth; diwygio deunydd cyhoeddedig; diwygio gweithdrefnau i atal yr un peth rhag digwydd eto; hyfforddi neu oruchwylio staff; neu unrhyw gyfuniad o'r rhain.

### *Rôl yr Ombwdsmon*

8.19 Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i gwynion ynglŷn â chamweinyddu yn erbyn Adrannau'r Llywodraeth neu eu Hasiantaethau Gweithredol. Fel arfer, ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gŵyn:

- oni bai bod yr achwynydd wedi dilyn ein proses gwyno'n llwyr a'i fod yn anfodlon â'n hymatebion o hyd; neu
- os oes llwybr cyfreithiol y gellir ei ddilyn i herio penderfyniad.

8.20 Mae llwybr cyfreithiol i herio penderfyniad ar gael ar gyfer ceisiadau DNS.

8.21 Hyd yn oed os yw'r Ombwdsmon yn penderfynu ymchwilio i gŵyn, ni all newid penderfyniad Gweinidogion Cymru.

8.22 Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon yn:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae,
Pencoed
CF35 5LJ

rhif ffôn: 0845 601 0987
e-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk
gwefan: www.ombudsman-wales.org.uk